

ECO'R WYDDFA

RHIF 32

RHAGFYR 1978

Pris: 12c

Stadtefreund- schaft an der 'basis'.

BURGERMEISTERIN EMPFING "SILVER BAND"
AUS BANGOR
MITTWOCH KONZERT IM MORGNERHAUS



Ble gwelsoch chi bennawd fel yna o'r blaen mewn papur bro? A beth tybed sydd a wnelo'r criw hapus yma â'r peth? Trowch i'r dudalen ganol am eglurhad llawn.

Canolfan Gymdeithasol

BYTH ERS i'w lythyr agored "at bob copa walltog (a moel) yn ardal Llanrug" ymddangos yn y rhifyn diwethaf o'r Eco mae Dafydd Whiteside Thomas wedi bod wrthi'n brysur yn gohebu â gwahanol gyrff cyhoeddus.

Anfonodd bedwar llythyr i gyd, un i Gyngor Gwlad Gwynedd, un i'r Cyngor Sir ac un at Gyngor Arfon. Anfonwyd un hefyd at Dafydd Wigley yr Aelod Seneddol.

Nid yw Cyngor Arfon wedi ei ateb eto ond derbyniodd atebion ffafriol gan y Cyngor Gwlad a'r Cyngor Sir. Cafodd addewid bendant ganddynt y byddent yn anfon cynrychiolwyr i unrhyw gyfarfod cyhoeddus a drefnir. Byddai'r cynrychiolwyr yma yn barod i egluro'r camau angenrheidiol fyddai eu hangen er darparu ar gyfer menter o'r fath.

Gwelai Dafydd Wigley hefyd yr angen am ganolfan gymdeithasol i Lanrug. "... A chan fod y pentref wedi ei ddynodi fel un sydd yn bentref twf", meddai yn ei lythyr, "buaswn yn tybio y dylai fod yn weddol uchel ar restr y blaenoriaethau ar gyfer y math yma o ddarpariaeth."

Ar awgrym yr Aelod Seneddol, ysgrifennodd Mr. Thomas at ffynhonnell arall a disgwyliar atebiad o'r cyfeiriad yma yn fuan.

Gobeithia Mr. Thomas drefnu cyfarfod cyhoeddus yn Lanrug "rhywbryd cyn y Nadolig."

CAIS I'N HYSBYSEBWYR

FEL y gwelwch, o droi tudalennau'r rhifyn yma, mae sawl un o'r fro wedi anfon cyfarchion y tymor. Rhoddwyd gofod i hysbysebwyd Cwm-y-glo; Deiniolen; Llanberis a Phenisarwaen y tro hwn. Bydd cyfle i hysbysebwyd Bethel; Llanrug a'r Waunfawr wneud yr un modd yn y rhifyn a ddaw allan o fewn pythefnos. Os nad yw'r trefnydd hysbysebion wedi cysylltu â chwi yn Cwm-y-glo, Deiniolen, Llanberis a Phenisarwaen, ac os ydych yn dymuno hysbysebu yn y rhifyn Nadolig - ffoniwch Caernarfon 4051 neu Caernarfon 3719.

Angorfa


YN UN o gyfarfodydd y Cyngor Cymuned, dan lywyddiaeth Mr. Ken Jones, cafwyd adroddiad ffafriol iawn ar y gwaith o atgyweirio 'Angorfa', Stryd-y-Ffynnon, cartref y diweddar T. Rowland Hughes. Rhoddwyd ar ddeall os pery y gwaith i fynd ymlaen fel ag y mae ar hyn o bryd y gwelir agoriad swyddogol 'Angorfa' yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Da iawn yn wir, a dyletswydd ydyw rhoi canmoliaeth uchel i'r ychydig ffyddloniaid sydd wedi rhoi oriau lawer yn gyson iawn, yn ddirwgnach, ac yn ddi-dâl i atgyweirio'r hen gartref. Rhoddodd Cyngor Arfon y cyfrifoldeb o atgyweirio'r adeilad i'r Cyngor Cymuned, ac mae aelodau'r Cyngor a'u cyfeillion i'w canmol yn fawr am ysgwyddo'r baich mor llwyddiannus.

Mae'r Cyngor Cymuned yn dra diolchgar i'r Cyngorydd Ifor Bowen Griffith o Gaernarfon am ei gynghorion, hefyd i Mr Iwan Jones,

Porthaethwy, Swyddog Diwydiant Cymdeithasol, sydd yn gyfrifol am y bechgyn sydd wedi gadael yr ysgol ac yn cael eu hyfforddi i wneud gwaith atgyweirio fel bricedu, peintio, plastro, gwaith coed ac yn y blaen yn Stryd-y-Ffynnon. Mae'r gwaith wedi ennyn diddordeb amryw o'r bechgyn yma, a hwyrach yn eu cychwyn ar yrfa eu gwaith beunyddiol.

Dylai'r ardal wybod am y criw bach diwyd sydd wedi rhoi eu horiau hamdden i'r gwaith.



Yn y llun gwelir y gweithwyr wrthi'n brysur yn atgyweirio Angorfa. O'r llofft sy'n ein hwynebu gellir gweld yr Wyddfa, y llyn a'r cwt biliards - manau oedd yn bwysig iawn ym meddwl T.R.H.

DAW Y RHIFYN NESAF ALLAN AR
RHAGFYR 21ain.

Y DEUNYDD I LAW'R GOLYGYDDION PRIODOL ERBYN
RHAGFYR 13 OS GWELWCH YN DDA

ECO'R WYDDFA

RHIF 32 RHAGFYR 1978

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.

DIOLCH AM GYFRANIADAU

Ein diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£1: Mrs Eileen Roberts, Earls Barton, Northampton.

£1.00 — Dienw Llanrug.
£2.00 — Di-enw, Prestatyn.
£1.00 — Mrs M.E. Edwards, Gt. Yarmouth; Cyfaill — Ardal Clwt-y-bont a Deiniolen.
£5.00 — Di-enw — Ardal Clwt-y-bont a Deiniolen.

SEIAT EFENGYLAIDD LLANBERIS

Gwahoddir chwi, yn enw yr Arglwydd Iesu Grist, i gyfarfod pregethu Beiblaidd, yn Festri Capel Nant Padarn, Llanberis, am 7 o'r gloch, bob nos Fercher.

Rhagfyr 6:
John Pritchard,
Llanberis

Rhagfyr 13:
Y Parch. Brifathro
R. Tudur Jones,
Coleg Bala-Bangor

Rhagfyr 20:
Robert Wyn Jones,
Llanllyfni

Rhagfyr 27:
Oedfa

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans

Llythgyrau

Annwyl Olygydd,

Fel rhieni sy'n byw yn ardal Eco'r Wyddfa, carem dynnu sylw eich darllenwyr at y cyfarfod pwysig a gynhelir yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ar Ragfyr 9fed. Rali i rieni Gwynedd fydd hon i alw am fwy o ddysgu drwy'r Gymraeg yn ein hysgolion uwchradd.

Mae'r ffigurau brawychus a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynglŷn â'r Gymraeg — sef mai ychydig dros hanner (55%) plant ysgolion cynradd Gwynedd sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, yn rhybudd amserol i bawb ohonom. Mewn ardaloedd fel bro Eco'r Wyddfa y mae diogelu dyfodol y Gymraeg.

Un ffordd sicr o ddiogelu'r Gymraeg yw ei defnyddio fel cyfrwng addysg — o'r Ysgol Feithrin hyd at radd Prifysgol. Ystyriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae'n bosib i blentyn o Sais gael ei addysg uwchradd yn gyfangwbl drwy'r Saesneg.
2. Ni all plentyn o Gymro gael hyd yn oed hanner ei bynciau drwy'r Gymraeg hyd at lefel 'O' neu 'TAU'.
3. Mae cyrsiau gradd drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol yn

gorfod dibynnu ar fyfyrwyr o Forgannwg a Chlwyd — ac nid ar fyfyrwyr o Wynedd!

4. Mae swyddi ar gael yng Ngwynedd lle mae'r Gymraeg yn angenrheidiol — ac eto 'does dim Cymry yn gymwys i gynnig amdanynt.

Mae ein plant yn cael cam ar hyn o bryd am na allant gael addysg gyflawn yn eu hiaith eu hunain. Nid yw dysgu am flyddyn neu ddwy yn Gymraeg yn ddigon; rhaid cael dilyniant drwy'r ysgol i roi chwarae teg llawn i'r plant ac i'r iaith.

Mae ysgolion eraill y tu allan i Wynedd eisoes yn gwneud hyn. Rhaid i ni fel rhieni sicrhau na fydd ysgolion Gwynedd yn llusgo'u traed, a mynnu yr hyn sy'n deg ac yn gyfiawn.

Dowch i Gaernarfon ddydd Sadwrn i wrando ac i ddangos eich cefnogaeth.

Yr eiddoch yn gywir,

Iona Williams, John Ellis, Rhian Ellis, Dic Jones, Jean Jones, Rob Jones, Alma Jones, Eurig Wyn, Gillian Wyn, John Gwynedd Jones, Cadi Jones, John Roberts, Don Roberts, Gareth Jones, Jennie Jones, Haydn Jones, Dafydd Iwan, Marion Iwan, Norman Williams, Olwen Williams.

RALI FAWR RHINI GWYNEDD

"ADDYSG GYMRAEG YNG NGWYNEDD

2.00 p.m. dydd Sadwrn, Rhagfyr 9fed
yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon

CYFLE I RIENI GWYNEDD DDANGOS EIN
BOD YN MYNNU ADDYSG GYMRAEG I'N
PLANT!

DEWCH I GLYWED TYSTIOLAETH
ATHRAWON, RHINI A RHAI A GAFODD
ADDYSG GYMRAEG.
DEWCH I DDANGOS EICH OCHR!

Cadeirydd: Y Cynghorydd Dafydd Iwan, B.Arch.

Cynhelir o dan nawdd y Mudiad Addysg Gyflawn
yn Arfon, Dwyfor, Ardudwy ac Ogwen.

APÊL GAN

HYWEL GWYNFRYN

Dyma nodyn a dderbyniodd golygydd erthyglau yr Eco oddi wrth Hywel Gwynfryn:

Annwyl Arwel,

'Sgwn i a fuaset ti'n cynnwys y llythyr amgaeedig yn y rhifyn nesa' o'r papur bro anhygoel Eco'r Wyddfa.

Gyda diolch,

Hywel Gwynfryn,

O.N. Hogia'r Wyddfa ydi'r grŵp pop gora' yn y byd!

(Ar ôl cyflwyniad mor daer — rhaid yw cynnwys yr apêl isod.)

Canwr, bardd, newyddiadurwr, arweinydd, nofelydd, storïwr, snuffiwr, a dipyn o gymeriad — dyna'n fras oedd Llew Llwyfo (1831–1901).

Os oes gan unrhyw un o'ch darllenwyr wybodaeth am y cymeriad diddorol yma, fe hoffwn yn fawr glywed ganddynt.

Dyma fy nghyfeiriad:

Hywel Gwynfryn,
118 Heol Pensili,
Llandaf, Caerdydd.

Llanberis

PLAID CYMRU — PRYDER YNGLŷN Â THANCIAU NWY YN LLANBERIS. Mae'r Bwrdd Nwy wedi pwysleisio nad oes cynlluniau pendant ar hyn o bryd i ddod â thanciau nwy i Lanberis. Cyflwynwyd y wybodaeth hon gan Gadeirydd y Bwrdd Nwy i gangen Plaid Cymru Llanberis, sydd wedi bod yn gwneud ymholiadau ar ran llawer o bentrefwyr sy'n teimlo'n bryderus ynglŷn â'r mater. Dywedodd y Cadeirydd hefyd fod y penderfyniad yn awr yn nwylo Cyngor Sir Gwynedd. CAPEL COCH — Mae Capel Coch yn parhau i chwilio am ofalwr ac yn cynnig tŷ newydd ei foderneiddio a'i addurno. Manylion ac amodau'r gwaith cysylltiedig ar gael oddi wrth Mr. R.G. Williams, 11 Rhes Victoria, Llanberis.

GENI — Llongyfarchion i Mr a Mrs Whittaker, 46 Stryd Newton ar enedigaeth eu mab, Aeddan Math.

CÔR GENETHOD LLANBERIS — Llongyfarchion i Gôr Genethod Llanberis ar ennill gwobr gyntaf yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR — Diddorwyd yr aelodau un nos lau gan Mrs Betty Humphreys, Gwastadnant, Nant Peris, drwy iddi adrodd ei hanes a dangos ffilmiau o'i thaith i Awstralia i weld ei chwaer a'i theulu. Diolchwyd iddi gan Mrs Annie Wilson, Jones a Mrs. A.B. Jones.

CAPEL COCH — Gwasanaeth bore Nadolig am 10 gyda'r Parch. H.J. Hughes a'r Parch. Marcus Robinson.

LLONGYFARCHIADAU — i Margaret Griffith, 2 Brynteg ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21ain ar Dachwedd 21.

DYMUNIADAU GORAU — i Gwawr Parry, Llys Orwig, Stryd Newton ar ei dyweddïad â Carl Anthony Wager o Brynrefail.

POB LWC — i Paul Jones, 59 Dôl Elidir, Ymunodd â'r Fyddin y mis hwn.

DYMUNIADAU GORAU — i Carys Williams, 6 Maes Padarn, Alwyn Williams, 12 Pant Du, Bryn a Dylan Jones, 60 Dôl Elidir ar ddathlu eu pen-blwydd yn 18 oed yn ystod y mis.
Mwy ar dudalen 8

LLANRUG

PERSONOL — Dymuniadau gorau a phen-blwydd hapus i Mrs Ellen Williams, (Bryn Awelon gynt) ac yn awr ym Mhlas Pen Gwaith, a fydd yn 90 mlwydd oed ar Ragfyr 16. Diolch i'r Matron a'r staff i gyd am eu gofal diflino. Oddi wrth Myfi a Harry Roberts, 2 Tai Plastirion; Hefin, Daphne, Vaughan ac Emma, Caerdydd.

FFAIR NADOLIG RIGARUG — Caed ffair lwyddiannus iawn yng nghwmni Siôn Corn yn neuadd Ysgol Bryn-refail. Oherwydd damwain, ni allai'r wraig wadd Miss Valmai Roberts (cyn-athrawes yn yr ysgol) fod yn bresennol. Gwerthfawrogwn ei chyfraniad hael a'r llyfrau stampiau gwyrdd, ac anfonwn ein cofion gan ddydd muno adferiad buan iddi. Diolch hefyd i Siôn Corn, bu'n brys iawn drwy gyda'r nos. Rhoddwyd ac enillwyd y rafflau gan y canlynol: Potel Sieri (gan Mrs Lovatt) — Swyn-yr-Awel; Teisen Nadolig (Mrs Carys Evans) — Mrs McGuinness; Bocs Nwyddau (Mrs Myfi Roberts a Mrs Gaynor Williams) — Carys, Hafod Owen, Ceunant; Bocs Wedgewood (Gimbarts China, Llandudno, drwy law Mrs Llywelyn) — Miss Jane Morris, Ysgol Dolbadarn; Basil Brush (Mrs Eira Wyn Hughes, Berwyn gynt) — Glenys Griffith, Ysgol Aberconwy; Llun olew (Mrs Owens, Fuchs Las) — Mrs Myfi Roberts; Casserole (Mrs Winstanley) — Ian Trevor; Cyw Iâr (Mr Wavell Roberts) — Gwen Williams, Tan y Gaer; Enwi'r ddol (a roed gan Mrs Meira Pritchard, Tan-y-coed ac a wisgwyd gan Mrs Jennie Williams, Bod Fair) — Eirlys Pierce. Enillwyd y bel gan Mrs Megan Owen, Glasgoed. Dyfalwyd pwysau'r glo (a roddwyd gan Mr Glyn Roberts) gan Bethanne Williams, ac Alma Jones, Waunfawr ddarganfu'r trysor. Diolchwn yn gynnes iawn i bawb am bob cyfraniad, cymorth a chefnogaeth.

CANU CAROLAU — Nos Fercher, Rhagfyr 20 — yn eisiau!! cantorion a chasglwyr i fynd o amgylch y pentref, gyda chydweithrediad parod y Seindorf, i ganu carolau tuag at Gronfa Rigarug. Pawb i ymgynnull o flaen y Cwt Band am 7 o'r gloch, os gwelwch yn dda.

BEDYDDIO — Nos Fawrth, Tachwedd 14 yn ei chartref, bedyddiwyd Judith, merch fach Mr a Mrs David Glaister, Sycharth, gan y Parch. W.O. Roberts. Estynnwn groeso cynnes i'r teulu hwn ar eu dyfodiad i'n plith o Lerpwl.

MERCHED Y WAWR — Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen yn y Sefydliad Coffa ar Dachwedd 14, gyda Mrs Nancy Lovatt yn y gadair. Cafwyd arddangosiad o addurno caccennau gan Mrs M. Williams, Groeslon a diolchwyd iddi gan Miss Phyllis Ellis. Rhoddodd Mrs Bethanne Williams adroddiad o'r Cyngor Cenedlaethol yn Aberystwyth. Bydd y cinio Nadolig yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis nos Lun, Rhagfyr 11. Yr enwau a'r arian (£3.50) i mewn i Mrs Eirlys Pierce erbyn Rhagfyr 4 fan bellaf. Mrs G. M. Jones a Mrs Davies, Plas Gwyn fydd yn cynrychioli'r gangen yn y Pwyllgor Rhanbarth yng Nghaernarfon. Diolchwyd i'r gwestwragedd gan Mrs Megan Roberts.

SUL Y COFIO — Cynhaliwyd gwasanaeth byr yn y Sefydliad Coffa fore Sul y Cofio. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parch. W.O. Roberts a'r Rheithor, y Parch. D. Gwynfor Williams. Trefnwyd y gwasanaeth gan swyddogion y Sefydliad Coffa ac aelodau'r Seindorf. Yr oedd y Seindorf yn bresennol i gyfeilio i'r emynau a daeth nifer dda o'r ardal i'r

gwasanaeth. Gwnaed coffa am yr arwyr yn ystod y gwasanaeth yn Eglwys y Plwyf hefyd.

GWASANAETH COFFA — Gwnaed coffad am y diweddgar Robert Jones, Idan House gynt, mewn gwasanaeth yn Eglwys Sant Mihangel. Talodd y Rheithor deyrnged i ffyddlondeb Robert Jones a gofynnodd am i rai ddilyn ei esiampl. Yr oedd aelodau o'r teulu yn bresennol yn y gwasanaeth. Yr organydd oedd Mr J. T. Morris.

PLAID CYMRU — Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y gangen yn y Sefydliad Coffa nos Wener, Tachwedd 17 ac er gwaethaf y tywydd mawr daeth nifer dda iawn o'r aelodau yno. Etholwyd y swyddogion arferol ynghyd a phwyllgor a chafwyd adroddiad boddhaol ar waith y tymor. Dangosai'r adroddiad ariannol fod y gangen wedi ymateb i'w cwota i'r Swyddfa yng Nghaernarfon ac wedi anfon ei chyfraniad teg i'r Pencadlys yng Nghaerdydd. Penderfynwyd cefnogi'r Cynulliad er mai mesur y Llywodraeth Lafur ydoedd a phasiwyd i gydweithio â phawb a oedd o blaid y mesur hwn. Trefnwyd cyfarfodydd ar gyfer tymor y gaeaf a'r gwanwyn. Enillwyd y Clwb Cant: £10 — T. Jones, Pros Kairon; £2.50 — Raymond Jones, Bryn Fedwen; £2.50 — E. Parry, Ceunant.

Y SEINDORF — Bydd parti Nadolig y plant ar Ragfyr 16. Bydd y Seindorf yn chwarae carolau ar Faes Caernarfon Rhagfyr 23. Croeso'n ôl i'r ardal i Mr a Mrs Meurig Parry a'r teulu. Cafodd Mr Parry groeso mawr pan ddaeth i glywed y Seindorf yn ymarfer. Llongyfarchwn ef hefyd ar gael dod yn ôl i'w waith yng Nghaernarfon.

GWASANAETH NAW LLITH A CHAROL — Cynhelir Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn Eglwys Sant Mihangel nos Sul olaf y flwyddyn, sef Rhagfyr 31. Cymerir rhan gan blant ac athrawon yr Ysgol Sul ac ieuencid yr Eglwys. Gobeithir y bydd y Seindorf yn bresennol hefyd.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL — Yng nghyfarfod agoriadol y Gymdeithas cafwyd rhaglen amrywiol gan Elwyn (Hogia'r Wyddfa) a Dilys ac Ild o Gaernarfon. Y llywydd oedd Mrs M. Lloyd Williams a diolchwyd iddynt gan Mr Emrys Owen a Mr Glynne Owen. Ar Dachwedd 7 bu Mr Tegid Roberts, Arwel yn holi'r aelodau mewn gwybodaeth gyffredinol. Rhannwyd yr aelodau yn ddau dim, Tim B a orfu. Caed gair o ddiolch gan Mrs Lola Butler a Mrs M. L. Williams. 'Milltir Sgwâr' oedd testun y Parch. Harri Parri yng nghyfarfod nos Fawrth, Tachwedd 19. Llywyddwyd gan y Parch. W.O. Roberts a thalwyd diolchiadau gan Mrs Inigo Jones a Mrs Williams, Bod Fair.

Y GOBEITHLU, CAPEL MAWR — Cafwyd pedwar cyfarfod. Dechreuwyd hwy trwy ddefosiwn gan Louise Bernard, Noel Jordan, Susan Wheldon Morris, Gwawr Owen, Nia Wyn Jones a Wendy Jones. Mewn dau gyfarfod bu nifer fawr iawn o blant yn canu ac adrodd, a dangoswyd ffilmiau gan Mrs W.O. Roberts yn y ddau arall. Mr John Williams, Gwledfa oedd yn gofalu am y taflunydd. Mrs M. Jones, Ogwen oedd y cyfeilydd. Diweddwyd y cyfarfodydd trwy weddi dan arweiniad y Parch. W.O. Roberts.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD, CAPEL MAWR — Nos Iau, Tachwedd 2 cafwyd noson goffi, a daeth cynulliad da ynghyd. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan Mrs Megan Williams, Gwledfa. Cofiwyd am y rhai oedd yn methu â bod yn bresennol a

diolchwyd am eu rhoddion. Rhodet y coffi gan Mrs Jones, Y Wern a Mrs C. Owen, Tŷ Fry. Gwnaed trefniadau at y Ffair Nadolig sydd i'w chynnal yn y Ffestri ar Ragfyr 7. Llywyddwyd gan Mrs N. Roberts, Anedd Wen.

YR YSGOL GYNRADD — Derbyniodd y prifathro a'r staff lythyr oddi wrth y Rheolwyr yn datgan eu diolch am amynedd a dyfalbarhad y staff trwy gydol yr amser y bu'r adeiladydd yn ceisio ymestyn ac addasu'r adeiladau. Nid peth hawdd oedd gweithio yng nghanol yr holl sŵn allanast.

GWAELEDD — Cipiwyd Mrs S.M. Roberts, Meifod i'r ysbyty yn ddiwaddar a da yw deall ei bod yn gwella'n foddhaol. Drwg gennym glywed fod Miss Grace Morris a'i thad Mr. O. Morris, Erw Hywel yn yr ysbyty hefyd. Bu Mr. G.R. Parry, Morannedd hefyd o dan driniaeth. Nid yw Mrs Jones, 8 Glanrafon na Mrs Morris, 18 Glanmoelyn yn dda y dyddiau hyn ac eiddunwn iddynt oll feddyginiaeth i'wyr a buan.

UNDEB Y MAMAU — Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y gangen yn ysgol

CAPEL Y BRYNGWYN

Bydd cyfarfod capel i drafod yn bennaf ethol swyddogion ar nos Sul, Rhagfyr 9, 1978, ar ol y Gwasanaeth Hwyr.



Fel aelod hynaf Capel y Wesleaid Hermon Llanrug Mrs D.S. Williams gynt o Bryn Awelon gafodd y fraint o dorri teisen i ddathlu canmlwyddiant y capel. A braint oedd o i Mrs Williams oherwydd bu'r capel bach yn rhan bwysig o'i bywyd am 72 o flynyddoedd. Bu'n aelod hynod weithgar — fel athrawes Ysgol Sul yn dysgu plant a phobl ifanc yr eglwys i ganu ac i adrodd. 'Roedd ei diweddgar briod D.S. Williams yn flaenor yn y capel.

Cofia bregethwyr mawr yn pregethu yno — ac yn eu plith enwau cyfarwydd fel y diweddgar Barchedig E. Tegla Davies a'r Parchedig Gwilym R. Tilsley. Cafodd sawl un o'r pregethwyr groeso a phaned gan Mrs Williams ar ôl pregeth hir.

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel Hermon a darlith gan y Parch. John Alun Roberts ar Hanes yr Achos fel rhan o'r dathliadau.

RAFFL CYMDEITHAS TAI GWYNEDD

Gwobr gyntaf — £50 — Dafydd Thomas, Ael y Bryn, Waunfawr
Ail Wobr — £25 — Mrs E. Jones, Boduan, Pwllheli
Trydedd Wobr — £5 — Brian M. Edwards, Afonwen, Pwllheli
'Roedd Ifanwy Rhisiart y Waunfawr ymhlith y nifer a enillodd wobr o £1.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

FFÔN
CAERNARFON 2898

SIBRYDION O'R YSGOLION



Iorwen Jones, Catrin Lennon, Darren Roberts, Ian Wyn Evans, Catrin Lloyd Roberts a Mark Parry, Ysgol Dolbadarn gyda'u tystysgrifau am bresenoldeb llawn yn ystod 1977-78.



Plant Ysgol Dolbadarn a gymerodd ran yn y daith gerdded nodedig dros Clegir.

Dymuna Mr Selwyn Pritchard (Pennaeth mewn Gofal) ar ran staff yr ysgol ddiolch i'r plant, y rhieni a phawb am eu hymdrechion i gasglu arian tuag at sefydlu Cronfa Chwaraeon yr ysgol. Yn wir, casglwyd swm o £250 a oedd tu draw i'n disgwyliadau.

GWERTHU LLYFRAU CYMRAEG YN YSGOL BETHEL



Yr holl blant o Ysgol Bethel a fu yn gwerthu llyfrau Cymraeg.



Arwel Jones (Golygydd Erthyglau'r Eco) yn cyflwyno gwobrau i Diane Vize, (Dosbarth 4); Gweno Owen (Dosbarth 3); Russell Williams (Dosbarth 2). Enillwyr ym mhob dosbarth am werthu llyfrau Cymraeg. Cyfanswm yr ysgol — 307 o lyfrau.

GOGLIS



Gwynfor Williams, Safon 3, Ysgol Dolbadarn gyda'r gadair a gafodd am adrodd ar y rhaglen 'Goglis' ar deledu Harlech.

Ysgol Gynradd Penisarwaen

YSGOL GYNRADD, PENISARWAUN

Yn ddiweddar, derbyniodd Meirion Wyn Green a Gwynfryn Williams dystysgrifau oddi wrth y Cyfarwyddwr Addysg am iddynt gadw'r ysgol yn ddi-feth trwy gydol y flwyddyn 1977-78.

Fis yn ôl, bu wyth o'r plant o Safonau 3 a 4 yn mwynhau penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn, lle buont yn cerdded, rhwyfo, dawnsio a chymdeithasu.

Diolch i Sharon Green, Marie Griffiths a Bethan Jones am ymuno yn y Daith Gerdded Nodedig i godi arian at 'Steddfod Caernarfon'.

YSGOL

BRYNREFAIL

TRIPIAU

Prynhawn Llun, Tachwedd 13, aeth criw o'r chweched dosbarth, ynghyd a Mr Gomer Davies, Dr. Prys Morgan Jones a Mr Eurwyn Roberts i ymweld â safle Gorsaf Bŵer Dinorwig. Cawsant amser diddorol dros ben.

Prynhawn dydd Gwener, Tachwedd 24, aeth rhai o blant dosbarthiadau 5 a 6, ynghyd â Mrs Norah Manning a Mrs Mary Hughes, i Theatr Gwynedd i weld Pygmalion, gan George Bernard Shaw.

YMWELWYR

Yn ystod y mis cafodd y chweched dosbarth sgysiaid gan John Ogwen a Maureen Rhys; Dr. Derec Llwyd Morgan (Coleg Prifysgol Bangor) a Mr Siôn Daniel (Coleg Prifysgol Bangor).

CODI ARIAN

Ychydig amser yn ôl trefnodd Mr R.M. Parry, Pennaeth Chwaraeon y Bechgyn i fechgyn blynnyddoedd 1, 2 a 3 redeg neu gerdded yn nodedig o gwmpas trac yr ysgol. Trwy hyn codwyd dros £350 o arian i brynu offer a thalu costau chwaraeon. Dymuna'r ysgol longyfarch y bechgyn a gymerodd ran a diolch i rieni a phobl yr ardal am eu cefnogi mor hael. Teimlwyd y dylai'r bechgyn uchod gael gwobr arbennig sef:

GWOBWRWYON YSGOL BRYNREFAIL

DYFARNWYD gwobrau gan reolwyr Ysgol Brynrefail am ganlyniadau safon 'A', 'O' a 'TAU' fel a ganlyn.

SAFON A:

Gwobr Mrs Rowlands i'r ferch a gafodd ganlyniadau gorau ac a aeth i Brifysgol: Helen Ira Hughes — Saesneg B; Mathemateg B; Daearyddiaeth D: Prifysgol Bryste.

Gwobr Dr. Lloyd Williams i'r bachgen a gafodd y canlyniadau gorau ac a aeth i Brifysgol: Olaf Cai Larsen — Saesneg A; Hanes C; Cymraeg C; Coleg y Brifysgol, Aberystwyth.

Gwobr Mrs Nell Owen: Mathemateg — Helen Ira Hughes (B).

Gwobr Mr David Jones — Mathemateg i'w rhannu rhwng Dewi Williams ac Eifion Jones. Gradd 'A' yn yr arholiad Mathemateg Ychwanegol.

SAFON O

Christopher Cheers 8A; Gwenllian Jones 6A; Rhian Cadwaladr Parry 5A; Eira Wyn Jones 4A; Emyr Llywelyn Griffith 4A.

SAFON TAU

Gwyn Jones 8 gradd 1; Shirley Owen 4 gradd 1; Janice Williams 4 gradd 1; Glyn Meirion Williams 3 gradd 1; Bryn Hughes 3 gradd 1.



Yn y darlun o'r chwith i'r dde yn y cefn mae Carl Philipson a Gareth Hughes.

Yn y blaen: Chris Peters, Mark Owen, Kevin Jones a Dylan Humphreys. Nid yw Griffith John Williams yn y darlun.

CYFARCHION NADOLIG LLANBERIS

DYMUNIADAU GORAU AM NADOLIG LLAWEN
ODDI WRTH BAWB YN

ODYN COPR

STRYD FAWR
LLANBERIS
Ffôn: Padarn 366



NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD
DDA



ROSALIND
FFASIYNAU
MERCHED
32 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn 459



Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i chwi oll

oddi wrth

**THOMAS
PRITCHARD
IRONMONGER**

BIRMINGHAM HOUSE

LLANBERIS
Ffôn 206



Dymuna
Mr a Mrs. G. M. EVANS



**CASTLE
GIFT SHOPS LTD.**

Llanberis (379) Caernarfon (3158)

ddiolch yn fawr i'w cyfeillion a'u cwsmeriaid
am bob cefnogaeth yn ystod 1978
a dymuno 1979 lewyrchus i bawb

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Gwesty Dolbadarn

Tŷ
Rhydd-
Feddiarit

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog
Aneuryn
Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
i holl ddarllenwyr yr ECO



BRYSIWCH I GAEL EICH

Teganau

YN SIOP

E. WILSON HUGHES

84 Stryd Fawr

LLANBERIS FFÔN 491

ROBERT GARTSIDE B.Sc., M.P.S.



FFERYLLYDD

COMPTON HOUSE
LLANBERIS Ffôn : 264

AM EICH ANRHEG NADOLIG!

GWERTHWR SWYDDOGOL

Persawriau

COTY, LENTHERIC, YARDLEY
MAX FACTOR

Ffilmiau a chamerau

AGFA, KODAK a FUJI

Dewis da o winoedd a gwirodydd
NADOLIG LLAWEN I BAWB!

CYFARCHION NADOLIG

LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth
JO a MARGARET

NUTS & THINGS

HEOL GOODMAN
LLANBERIS



CYFARCHION
Y TYMOR
oddi wrth

Dilys Baylis

SIOP MEIRIONFA
LLANBERIS



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth

P
E
E
T
E
S



STRYD FAWR
LLANBERIS

DYMUNA

CLEDWYN A BETTY
PARRY

GLAN Y DON
STRYD FAWR
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD

DDA
i'w
ffrindiau a chwsmeriaid oll


Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Laethog!

A.W. HUGHES

DYN LLEFRITH

FFARM BRON ERYRI

LLANBERIS Ffôn: 391



Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda

i bawb yn
Llanberis a'r Cylch
oddi wrth



CENTRAL GARAGE

LLANBERIS.
Ffôn: 202

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

SIOP GOED

STRYD FAWR

Llanberis

DIOLCH I BAWB
AM GEFNOGAETH YN
YSTOD 1978 —
NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
YN 1979



Y LLE
AM ANRHEG NADOLIG
I BAWB O'R TEULU

HUGH PERIS PRITCHARD

Dinorwig House

Llanberis

FFÔN:
LLANBERIS 300

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL



CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

H.E. HUGHES

a'r MEIBION



Ffôn: 444

MASNACHWYR GLO

1 BYTHYNNOD GADLYS LLANBERIS

CYFARCHION NADOLIG O LANBERIS



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

oddi wrth

Dorothy's

SIOP 'DAFEDD
A DILLAD PLANT

38 STRYD FAWR **Llanberis** Ffôn: 772



NADOLIG LLAWEN
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Mr. a Mrs. W.JONES
Gwen ac Alwena

**Padarn
Stores
LLANBERIS**

Llanberis 496

BARGEINION

Mace

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

i bawb oddi wrth

**Bessie Jones
Siop**

STRYD FAWR
LLANBERIS

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
i bawb

**Tŷ
Bwyta**

STRYD FAWR

Llanberis

Ffôn: Padarn 487

BWYD DA AM
BRIS RHESYMBOL

CYFARCHION Y TYMOR

ODDI WRTH

BAWB YN

**Arton
Cafe**

STRYD FAWR

LLANBERIS

Ffôn 475

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

oddi wrth

Vera a Haydn

**SIOP
CHIPS**

SNOWDON VALLEY

LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 659

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA
oddi wrth

**TOM
JONES**

A'R CWMNI



STORFA GIG
GLYN PADARN
LLANBERIS
(Ffôn 319)

**Lle Newydd Sbon
l Brynu Eich
Anrhegion Nadolig!**



**Llanberis
Art & Craft**

LLANBERIS, GWYNEDD TEL. 597

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU

AM 1979

oddi wrth

W. J. DAVIES

**MODURDY'R
WYDDFA
LLANBERIS**



A.A. R.A.C. M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr Ddydd a Nos

LLANBERIS

MARW — Mrs Mary Price — Ar Hydref 27 bu farw Mrs Mary Price (gynt o Islwyn House) yng nghartref ei ffrind Mrs L.C. Owen, Rhos Vaynol.

'Roedd Mrs Price yn 90 oed ac yn un o gymeriadau hynaf yr ardal, yn ferch i'r diweddar John Jeffra a Jane Ann Jones, Nant Tŷ, Dyffryn, Cwm Brwynog.

Treuliodd ei hoes yn yr ardal, a bu'n weithgar yn ei chapel tra y medrai. Collodd ei phriod a'i dwy ferch flynyddoedd yn ôl.

Claddwyd hi ym mynwent Nant Peris gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu.

MR. FRANCIS OWEN — Yn yr ysbyty bu farw Mr Francis Owen, Victoria Villa, yn 82 oed. Bu yntau fyw ar hyd ei oes yn yr ardal, ac yn gweithio yn y chwarel am gyfnod. Cydymdeimlir â'i chwaer-yng-nghyfraith, Mrs Owen, a fu'n garedig dros ben wrtho ar hyd y blynyddoedd, hefyd ei wyrion a'r berthnasau oll. Claddwyd ym mynwent Nant Peris gyda'r Parch. Marcus Robinson yn gwasanaethu.

NYRS MENNA JONES — Yn yr ysbyty y bu 'Nenna (fel y gelwid hi gan yr ardalwyr) farw ar ôl gwaelledd olin a hir. Merch ydoedd i'r diweddar Griffith Jones, Gwalia House, teiliwr wrth ei alwedigaeth. Aeth Nenna i ffwrdd ar ôl gadael Ysgol Brynrefail i ddilyn ei gyrfa fel nyrs, a diweddodd yr yrfa honno yng Nghaernarfon, lle bu yn gweinyddu am lawer o flynyddoedd. Bu ei hunig frawd, Gwilym foddi pan yn fachgen tuag.

Cydymdeimlir â'i chyfnitherod i yn eu colled — Sister Annie May Jones, Miss Gwyneth Jones, Mrs Idris Morris a Mrs Evans.

CASGLU ARIAN — Ardal dda yw Llanberis pan fo angen cefnogaeth at unrhyw achos da. Yn ystod yr wythnosau diwethaf, heblaw y cyfanswm cyson at yr Eisteddfod Genedlaethol, fe gasglwyd fel a ganlyn:

Fe gasglwyd at yr N.S.P.C.C. — £53.23. Llanberis Youth Centre — £38.35. ac mewn Noson Goffi a drefnwyd casglwyd £456 at 'The Cardiac Unit'.

CYMDEITHAS LENYDDOL — Yng Ngorffwysfa, dan lywyddiaeth Mrs Janet Davies darlithiwyd i aelodau'r gymdeithas undebol gan Mr Tom Williams, y Waunfawr.

Yng Nghymdeithas Nant Padarn, agorwyd y tymor gan Mrs Cassie Owen, Wyddfyd, yn dangos sleidiau ar ei gwyliu yn yr Alban. Diolchwyd iddi gan Mr Aled Owen.

YN YR YSBYTY — Yn Ysbyty Bryn Seiont mae Mr Emyr Jones, 27 Dôl Elidir ac yn Ysbyty Môn ac Arfon mae Mrs Maxwell Jones, Dôl Elidir.

WEDI GWELLA — Pleser mawr yw croesawu rhai o'r ardalwyr adref ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

Mrs Mair Eluned Owen, Bod Awen; Mrs Enid Roberts, Maes Padarn a hefyd Dylan, mab Mr a Mrs John Williams, Rallt Goch a Gillian merch Mr a Mrs Dennis Pitts, Dôl Elidir.

SEFYDLIAD Y MERCHED —

Diddorwyd yr aelodau un nos lau gan Mrs Betty Humphreys, Gwastadnant, Nant Peris, drwy iddi adrodd ei hanes a dangos ffilmiau o'i thaith i Awstralia i weld ei chwaer a'i theulu. Diolchwyd iddi gan Mrs Annie Wilson Jones, a Mrs A.B. Jones.

Treuliodd nifer o'r aelodau noson ddifyr yn Llandudno, yn gweld cyflwyniad gwyh o'r ddrama gerddorol 'Sound of Music'. Yr un noson 'roedd Mrs Betty Humphreys a Mrs Jean Ellis, Nant Peris yng Ngholeg Glynllifon yn dilyn cwrs addurno cacen Nadolig.

Bydd cinio blynyddol yng ngwesty'r Fictoria ar nos lau Rhagfyr 7. Ein 8

gwraig wadd ar Ragfyr 14 fydd Mrs Non Evans.

CLWB Y MAMAU IFANC — Cafwyd amrywiaeth mawr yn nyddiadur y clwb yn ystod y mis diwethaf yma. Cafwyd ffilmiau ac araith gan Mr. G. Selwyn Williams, C.E.G.B. a mwynhawyd y wybodaeth yn fawr iawn. Diolchwyd iddo gan Mrs Eirlys Ellis.

Y nos Fercher cynt trefnwyd noson o 'Siôn a Siân' dan arweiniad Mr Francis Jones, yn cael ei gynorthwyo gan Mrs Vivian Thomas.

Y cyplau oedd: Mr a Mrs Ieuan Ellis Jones, Mr a Mrs Meurig Evans, Y Rhingyll a Mrs M. Owen.

Sgwrs ddiddorol gan Mr Idris Owen, y Waunfawr a gafwyd ar noson arall.

LLONGYFARCHION — a phen-blwydd hapus yn 95 oed ar Dachwedd 30 i mam — Mrs Ellen Parry, 60 Vale Road, y Rhyl, oddi wrth Cledwyn, Betty, Eleri, Valerie a Mr Williams, Glanydon, Llanberis.

BEDYDD — Bore Sul, Tachwedd 12 yng Nghapel Coch, gyda'r Parch. Marcus Robinson yn gwasanaethu, bedyddiwyd Manon Lloyd, merch Mr a Mrs Iwan Williams, Prince of Wales.

LLONGYFARCHION — i Alwyn Lloyd Roberts, Myrddin Goch, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed ar Dachwedd 14.

DIOLCH — Dymuna Mr a Mrs John Williams, 6 Rallt Goch ddiolch i'r teulu a llu ffrindiau am eu caredigrwydd tuag at Dylan tra bu yn Ysbyty Minffordd, Bangor yn ddiweddar.

NOSON GOFFI — Yn y Ganolfan, nos lau Tachwedd 9 cynhaliwyd noson goffi eithriadol lwyddiannus tuag at y 'Mobile Cardiac Arrest Unit'.

Agorwyd y noson gan Mr Gwynfor Williams, Bryn Derw, Stryd Newton. Yn ystod y noson cafwyd ocsiwn fawr dan arweiniad Mr Huw Williams (Huw Bara).

Codwyd £456 tuag at yr achos da yma.

Enillwyr y raffl: 1) Darlun gan Barbara Owen — Diane Jones, Dol Elidir; 2) Ann Williams, Caernarfon; 3) Meira Willis; 4) Mrs Betty Parry; 5) Mrs Allen; 6) Mrs Agnes Owen; 7) Mrs Deliah Parry; 8) Morgan, Gwynndy, Bethel; 9) Mrs Beryl Lewis; 10) Mrs M. Price, Cwm-y-glo; 11) Llew, Greengate; 12) Gwilym, Ambiwllans; 13) Adrian ac Andrew Williams; 14) Rhif Iwcus — Miss J. Thomas, Bryn Aethwy.

Dymuna'r trefnwyr ddiolch i'r ardal am ei chefnogaeth hael dros ben.

Y CARNIFAL — Llongyfarchiadau i Bwyllgor Carnifal am eu llwyddiant ariannol unwaith eto eleni. Deillir iddynt wneud elw ardderchog iawn. Yn y pwyllgor blynyddol diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth a'u gweithgarwch.

PLAID CYMRU — (Cangen Llanberis) — Nos Wener, Tachwedd 3 cynhaliwyd Noson Goffi ac Adloniant yn y Ganolfan. Cafwyd noson arbennig o lwyddiannus, o safon gerddorol uchel, yng nghwmni Robert Wyn Roberts (baritone), myfyriwr yng Ngholeg Cerdd Manceinion ac enillydd Cenedlaethol. Canodd Robert gyfansoddiadau o waith Mozart, Handel, Schumann, Malestte a Meirion Williams. Fe'n diddorwyd hefyd gan Eleri Davies, myfyriwr cerdd ym Mhrifysgol Bangor, a disgybl i Mrs Elinor Wigley. Rhoddodd Eleri ddatganiadau o gyfansoddiadau Mozart a chyfansoddwyr clasurol eraill ar y delyn. Mwynhaodd y gynulleidfa wrando hefyd ar dri gitarydd clasurol ieuanc, — Cemlyn Jones o'r Bontnewydd, Elin Parry ac Eleri Jones o'r Groeslon, y tri'n

ddisgyblion i Mr Bert Parry a Mr Anthony Smithson. Rhoddodd y tri ddatganiadau o waith Stanley Myers, Tarrega a Fortea. Yr arweinydd oedd Mr Bert Parry a'r cyfeillydd oedd Mrs Ann Pritchard. Talwyd diolchiadau gan Mr T.J. Roberts, Nant Peris. Gwnaethpwyd y coffi gan Mrs J.M. Jones, Mrs Netta Jones, Mrs B. Rees Evans a Mrs E.M. Williams.

Cynhelir Ffair Nadolig gan y gangen nos Wener, Rhagfyr 15, yn Festri Gorffwysfa am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.



Yng Nghapel M.C. Henllan priodwyd Miss Alys Roberts, merch Mr a Mrs David John Roberts, Hafod, a Gordon Owens, mab Mr a Mrs John Owens, 2 Ffordd Capel Coch, Llanberis. Gwasanaethwyd gan y Parch. Gwilym Ceiriog Evans, y gweinidog a chyfeilliwyd gan Ceinwen Roberts, Trigan. Y delynores oedd Mair Edwards (Telynores Elwy) ac arweiniwyd y gan gan Mair Roberts, Merlllyn.

Rhoddwyd Alys i ffwrdd gan ei thad. Y morynion oedd Esther a Nerys, chwiriwyd y briodasferch. John Kerfoot oedd y gwas priodas. a'r ystlyswyr oedd y Mri. Arwyn, brawd Alys, a Wyn Davies, brawd-yng-nghyfraith Gordon. Cynhaliwyd y wledde yng Ngwesty'r Woodlands, Rhuthun.

Bydd Gordon ac Alys yn cartrefu yn 27 Rowan Drive, y Rhyl.

Y llun gan Hywel Evans, Tan-y-Marian, Dinbych.

DIOLCH — Dymuna Arwel Wynne Roberts, 9 Llainwen Isaf ddiolch yn fawr am bob caredigrwydd, anrhegion a chardiau a dderbyniodd yn ystod ei waelled. Diolch hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau.

Dymuna Gwyneth Jones, Llythyrdy Llanberis ddiolch yn fawr iawn i bawb a fu mor garedig ag anfon cardiau a chyfarchion ac anrhegion iddi ar achlysur ei phen-blwydd yn un ar hugain oed.

Dymuna Mrs Mair Eluned Owen, Bod Awen, Stryd Fawr ddiolch i ffrindiau, cymdogion a theulu am eu caredigrwydd yn ystod ei gwaelled. Da gennym glywed ei bod yn gwella.

LLWYDDIANT CERDDOROL — Llongyfarchiadau i Rhiannon Pritchard Madryn, Stryd Newton ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth unawd piano dan 15 oed yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

CLWB YR HENOED — Yn y Ganolfan ar y 7fed o'r mis hwn cyfarfu Pwyllgor Clwb yr Henoed. Cafwyd adroddiad o waith y tymor gan Miss Ann Jones, yr ysgrifennydd a threfnwyd ar gyfer y Ffair Nadolig. Gan nad oedd dim arbennig wedi ei drefnu ar gyfer aelodau'r clwb yn ystod 'Wythnos yr Henoed', penderfynwyd anfon rhodd Nadolig i bob aelod o'r clwb. Daw aelodau o'r pwyllgor oddi amgylch i gyflwyno'r rhoddion i 207 o'r aelodau.

Diolchwyd i aelodau'r pwyllgor gan y llywydd am eu parodrwydd i weithio ar ran yr henoed.

DIOLCH — Dymuna Mrs Mary Jackson Maes Padarn ddiolch o galon i'w chymdogion a'i holl ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ei mab Irvine tra bu mewn ysbytai yn Lerpwl. Diolch yn fawr iawn.

PLAS PEN-GWAITH — Bore Gwener, Hydref 13 cynhaliodd rhai o blant Ysgol Dolbadarn wasanaeth Diolchgarwch yn y cartref. Fel arfer cafodd yr athrawon a'r plant groeso mawr.

Dymuna'r trigolion, staff, a Mrs Williams, ddiolch yn gynnes am yr holl flodau, ffrwythau a nwyddau a dderbyniasant oddi wrth blant Ysgol Dolbadarn; plant ysgol Babanod Brynrefail, Eglwysi Llanrug a Phenisarwaun, a chapeli Nant Padarn a Jerusalem.

PRIODASAU — Yn ystod mis Hydref, yn Eglwys Sant Padarn, priodwyd Helen Ann, merch Mr a Mrs William Roberts, 15 Maes Padarn ag Owen Sharp o Sheffield. Ein dymuniadau gorau i'r ddau.

Hefyd Judith Loraine Williams, Beech Bank, merch Mr a Mrs T.J. Williams, ar ei phriodas â Mr Mark Winstanley, B.Sc., Birkenhead.

RHODD — Dymuna Pwyllgor y Gronfa Apel ddiolch o galon i Matron, Mrs Williams, a theulu Plas Pen-Gwaith am eu rhodd anrhydeddus o £20 tuag at yr Eisteddfod.

Diolch yn fawr iawn i chwi.

DYWEDDIO — Llongyfarchiadau i Miss Rhiannon Griffith, 32 Dôl Elidir ar ei dyweddïad â Mr Ken Evans, 5 New St., Deiniolen.

YN UN AR HUGAIN — Llongyfarchiadau i Gwyneth, Y Llythyrdy ar ei phen-blwydd yn 21ain. Pob dymuniad da iddi.

CRONFA'R EISTEDDFOD — Ni chynhelir Bingo'r Nadolig ar Ragfyr 8. Gobeithir cynnal noson yn ystod y flwyddyn newydd.

Cynhelir 'Cymanfa Garolau' dan arweiniad Mr Richard Jones yng Nghapel Coch, am 8 o'r gloch, nos Sul Rhagfyr 17, pryd bydd Côr Plant Llanberis, Plant Ysgol Dolbadarn a thalentau lleol yn cymryd rhan. Mynediad drwy raglen yn unig. Pris y daflen garolau fydd 20c a 10c i blant a phensiynwyr. Bydd iard yr ysgol yn agored i barcio ceir.

Mawr obeithiwn am eich cefnogaeth i'r noson arbennig yma. Beth yn well i roi naws y Nadolig na chlywed lleisiau plant yn canu.

CASGLU STAMPIAU GWYRDD — os oes gennych stampiau gwyrdd i'w sbarlo byddai Miss Jane Morris yn ddiolchgar iawn o'u derbyn. Cyfnewidir y stampiau am arian tuag at Gronfa'r Eisteddfod. Diolch yn fawr i'r rhai sydd eisoes wedi rhoi yn barod.

CLWB 300 — bydd ychwanegiadau yng ngwobrau'r Clwb am fis Rhagfyr. Byddent fel a ganlyn: £35; £20; £10; £10; £10; £10; £5; £5; £5; £5.

Mae lle eto i rai ymuno â'r Clwb. I'r rhai hynny sydd â diddordeb a wnewch chwi ymgysylltu â Mr John Williams, Eirianfa.

A wnaiff yr aelodau dalu i mewn cyn Rhagfyr 13 os gwelwch yn dda. Fe dynnir y rhifau lwcus y noson honno. Ar hyn o bryd mae'r coffrau yn dal £2715.63.

Cynhelir y Pwyllgor nesaf yn Festri Gorffwysfa am 8 o'r gloch, nos Fawrth Rhagfyr 5.

I MENNA:

I Menna fywn dymunaf — pob diolch

A dyled a dalaf:

Angyles gynnes gaeaf,
A heulwen hynaws yr haf. *Elfyn.*

BETHEL

LLONGYFARCHIADAU — i Iolo Wyn Morgan, 8 Cremlyn ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 18 oed. 'Roedd Iolo yn cael ei ben-blwydd ar Dachwedd 23.

LLONGYFARCHIADAU — i Nerys ac Ifan Owen, Corra Linn, ar ddathlu pen-blwydd eu priodas yn 25 ar Dachwedd 4.

LLWYDDIANT CERDDOROL — Dymunwn longyfarch Beth Lewis Jones, Tŷ'r Ysgol ar lwyddo yn arholiad canu'r piano Gradd V a Menna Deulyn Williams, Minffordd fu'n llwyddiannus yn yr arholiad Gradd VII gyda theilyngdod. Cynhaliwyd yr arholiadau dan nawdd Coleg y Drindod Llundain.

CLWB Y MAMAU — Nos Fercher, Hydref 25 croesawyd Dr. Noel Roberts. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo ar 'Gymorth cyntaf'. Cynorthwywyd ef gan Mr Dafydd Williams Cilcau, Stad Rhos. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Audrey Pierce, Cae'r Siddi. Y gwestwagedd oedd Mrs Lynwen Morris, Mrs Ceinwen Williams a Mrs Elizabeth Jones. Nos Fercher. Tachwedd 22 bydd Mrs Mair Jones, Glan Gors yn rhoddi sgwrs ar Ceginio at y Nadolig.

CYDYMDEIMLO — Dydd Sul, Hydref 22 yn ysbyty Môn ac Arfon, Bangor bu farw Mr Robert Japheth, 2 Tan y Ffynnon. Roedd Mr Japheth yn 69 mlwydd oed. Dydd Sul, Hydref 29 bu farw Mrs Appolonia Ellis, 35 Bro Rhos, yn 78 mlwydd oed.

Mae'n cydymdeimlad llwyrfa gyda'r ddau deulu yn eu profedigaeth.

MERCHED Y WAWR — Yn y cyfarfod o'r gangen leol nos Fercher, Tachwedd 8 cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ar hanes yr Eisteddfod Genedlaethol gan Mr. John Roberts, Trefnydd yr Eisteddfod yn y gogledd. Diolchwyd i Mr Roberts gan Mrs Betty Owen, Crud yr Awel. Rhoddwyd cyfraniad o £8, arian y te, i Eisteddfod Caernarfon.

Cafwyd adroddiad manwl o'r Gynhadledd yn Aberystwyth gan y llywydd, Mrs M.G. Williams, Gwylfa.

Mrs Enid Hughes a Mrs Eirlys Sharpe oedd y gwestwagedd.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 1979 — Bu nifer o wragedd y pentref yn gweu i godi arian i'r Eisteddfod yn ystod y mis. Bydd pawb yn falch o glywed fod y gweu wedi dod â'r gronfa £150 yn nes at y targed. Erbyn hyn mae £1,114 wedi eu cyfrannu i'r Gronfa, hanner y nod.

Enillwyr y Clwb 100 y mis yma oedd 1) Mrs Mary Williams, Cilgwyn — £20; 2) Mr. H. S. Jones, Garreg Goch — £10; 3) Mrs. K.E. Williams, Parc y Wern — £5 a Mr Brad Bardsley, Ystad y Rhos — £5.

LLONGYFARCHIADAU — i Manon D. Williams, 4 Tan y Cae a ddaeth yn gyntaf am adrodd dan 12 oed yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen. Hefyd i Barti'r Rhos ar gael y wobwr yn y Gystadleuaeth Cyd-adrodd.

LLONGYFARCHIADAU — i Mr a Mrs Arthur W. Owen, 10 Rhoslan ar enedigaeith mab, Kelfin.

EISTEDDFOD GADEIRIOL BETHEL — Nos Wener a nos Sadwrn, Tachwedd 10 ac 11 cafwyd Eisteddfod llwyddiannus. Nos Wener 'roedd y cystadleuthau yn gyfyngedig i blant y pentre' a chafwyd cystadlu brwd iawn ym mhob cystadleuaeth. Nos Sadwrn 'roedd y cystadlu braidd yn araf i ddechrau ond erbyn diwedd y noson cafwyd cystadlu da eto.

Bardd y Gadair oedd Mr. Emyr Jones, Caernarfon. Cafodd ganmoliaeth uchel iawn i'w gerdd ar "Lluch". Mae Mr Jones, sy'n enedigol o'r Waunfawr yn enwog drwy Gymru am ei lyfr

"Canrif y Chwarelwr".

Enillydd cystadleuaeth yr englyn oedd Mr Dafydd Williams, Y Rhos. Dyma ei englyn i'r Gymanfa Ganu:

Gŵyl yw o emynau glân, er hynny
Di rinwedd yw'r cyfan
Ail y gair i hwyl y gân,
Y dôn cyn Duw ei hunan.

Mr Emrys Edwards oedd y beirniad llên ac adrodd a Mr Gilmor Griffith, Dinbych oedd y beirniad cerdd, a Mr W.J. Eames, Llanwnda oedd y beirniad arlunio. Nos Wener cyfeiliwyd gan Mr Bili Evans gyda Miss Annette Bryn Roberts, Dinorwig yn cyfeillio nos Sadwrn. Arweiniwyd yr eisteddfod gan Mr Islwyn Jones, Tŷ'r Ysgol, Mr Arfon Williams, Stad Eryri a Mr Goronwy Jones, Glan Gors. Trefnwyd yr orsedd gan aelodau'r Urdd.

Dyma'r canlyniadau:

Nos Wener:

Adrodd: Dan 4 oed: 1. Sioned Owen, Cefn Cynrig; 2. Michelle Jones, Bro Rhos; 3. Llinos Williams, Ceris, Robin Warrington, Wern, Manon Elis, Sycharth a Sarah Jane Green, Corra Linn. 4 i 6: 1. Nichola Evans, Hafod Shalom, Gwen Jones, Fachell ac Awen Williams, Tawelfa; 2. Huw Williams, Bryn Pistyll; Bethan Jones, Fachell; Wenna Williams, Ceris; Gwyn Hughes, Siabod; Kelvin Roberts, Bro Rhos; Nia Hughes, Snowdonia; Ian Roberts, Bro Rhos; Gail Warrington, Wern; Llion Tudur Jones, Eithinog; Irfon Tudur Jones, Eithinog; Irfon Price, 5 Tan y Ffordd; Rhian Hughes, Siabod ac Elis Bebb, Llwyn Eithin. 6 i 8: 1. Andrew Kettle, Tŷ Rhos; 2. Aled Jones, Fachell a Carys Owen, Berwyn; 3. Mark Evans, Hafod Shalom, Angharad Price, 5 Tan y Ffordd a Lynne Hardwidge, 10 Tan y Buarth. 8 i 10: 1. Meinir Williams, Elan; 2. Gwenno M. Owen, Crud yr Awel; 3. Helen Jones, Glas Ynys. 10 i 12: 1. Manon Williams, Elan. Parti Adrodd dan 12 oed: 1. Parti Meinir Owen; 2. Parti Judith Owen.

CANU: Dan 4: 1. Sioned Owen, Cefn Cynrig; 2. Manon Elis, Sycharth, Llion Tudur Jones, Eithinog a Robin Warrington, Wern. 4 i 6: 1. Gwen Jones, Fachell; 2. Ian Roberts, Bro Rhos; 3. Nichola Evans, Hafod Shalom a Gail Warrington, Wern. 6 i 8: 1. Lynne Hardwidge, 10 Tan y Buarth; 2. Angharad Price, 5 Tan y Ffordd; 3. Euros Jones, Eithinog; Carys Owen, Berwyn a Mark Evans, Hafod Shalom. 8 i 10: 1. Meinir Williams, Elan; 2. Helen Jones, Glas Ynys; 3. Mari Owen Crud yr Awel. 10 i 12: 1. Gwenno Bebb, Llwyn Eithin; 2. Manon Williams Elan; 3. Guto Bebb, Llwyn Eithin. PIANO: Dan 15: 1. Manon Williams, Elan; 2. Gwenno Bebb, Llwyn Eithin. PARTI UNSAIN: 1. Parti Awen; 2. Parti Catrin.

PARTI CERDD DANT: 1. Parti Enid 2. Parti Rhian.

ARLUNIO: Dan 6: 1. Nicola Evans, Hafod Shalom; 2. Nia Hughes, Snowdonia; Gwen Jones, Fachell; 3. Rhian Hughes, Siabod; Haf Owen, Tan y Buarth; Bethan Jones, Fachell; Llion Tudur Jones, Eithinog; Awen Williams, Tawelfa; Huw Llewelyn Williams, Bryn Pistyll; Manon Elis, Sycharth; Irfon Price, Tan y Buarth. Dan 8: 1. Mark Evans, Hafod Shalom; 2. Euros Jones, Eithinog ac Andrew Jones, Glas Ynys. Dan 10: 1. Richard Sharpe; Dan 12: 1. Manon Williams, Elan; 2. Rhian Davies, Trem Eryri. Dan 15: 1. Ruth Evans, Rhos Alun; 2. Jessica Jane Williams, Cefn y Gwynt; 3. Julie Vize, Cefn Rhos; Andrew Evans, Rhos Alun a Gwyn Antur Jones, Cremlyn.

LLÊN: Dan 6: Nicola Jane Evans, Hafod Shalom; 2. Llion Tudur Jones, Eithinog; 3. Gwen Jones, Fachell. Dan 8: 1. Gareth Owen, Tan y Buarth; Euros Jones, Eithinog a Carys Owen, Berwyn. Dan 10: 1. Gwenno M. Owen,

Crud yr Awel, 2. Mari Owen, Crud yr Awel, 3. Meinir Owen, Crud yr Awel. Judith Owen, Terfyn a Gerwyn Jones, Eithinog. Dan 12: 1. Gwenno Bebb, Llwyn Eithin; 2. Richard Williams Hafod; 3. Mair Hughes, Siabod. Dan 15: 1. Shan Evans, Blaen Parc; 2. Ceri Evans, Blaen Parc.

Nos Sadwrn:

UNAWD PIANO: Dan 15: 1. Alwena Morris, Deiniolen.

Adrodd dan 18: 1. Nerys Lyn Williams, Dolgarrog; 2. Gwenda Williams, Bodffordd. Dan 25: 1. Nerys Lyn Williams, Dolgarrog; 2. Gwenda Williams, Bodffordd.

UNAWD CERDD DANT: 1. Gwynfor Baum, Y Ffôr; 2. Megan Jones, Treborth.

ADRODDIAD DIGRIF: 1. Llwyn Pistyll.

DEUAWD AGORED: 1. Gwynfor Baum ac Ithel Parry, Y Ffôr; 2. Emyr Wyn a Trefor Wyn, Llangristiolus.

LLYTHYR O GŴYN: 1. Mrs N. Owen Berwyn, Bethel.

LLINELL GOLL: John D. Evans, Maes-y-Dref, Clwt-y-bont, Deiniolen.

CADAI: Mr. Emyr Jones, Llwyn Celyn, St. David's Road, Caernarfon.

EMYN DROS 50: 1. Gwynfor Baum, Y Ffôr; 2. Ithel Parry, Y Ffôr; 3. Ifan Cilan ac Alaw Gruffudd.

EMYN BEDYDD: 1. Y Parch V.E. Williams, Y Rheithordy, Aberffraw.

ENGLYN: Mr Dafydd Williams, Hafod Rhos, Bethel.

PRIF ADRODDIAD: 1. Gwenda Williams, Bodffordd; 2. Gwenda Mai Lloyd, Treborth; 3. Llwyn, Pistyll.

PRIF UNAWD: 1. Alun Edwards, Llangefni; 2. Emyr Wyn Jones, Llangristiolus; 3. Trefor Wyn Jones, Llangristiolus a Clarence Jones, Llanddaniel.

CYFANSODDI BRAWDDEG: 1. W. R. Jones, Pantafon, Rhostryfan.

YSGRIF: Ieuan Williams, Llain yr Ardd, Bethel.

CÔR ADRODD: Parti'r Rhos, Bethel.

BETWS GARMON

DERBYN — Derbyniwyd 4 o bobl ifanc y pentref yn gyflawn aelodau i Gapel 'Salem' bnawn Sul, Tachwedd 19, gan y cyn-weinidog y Parch. J.D. Roberts, Caernarfon, sef Meirion Williams, y Llythyrdy, Eirian Williams, Ty'n Weirglodd, Carol ac Emyr Jones, Tŷ Coch.

YMRYSNFA CŴN DEFAID — Cynhaliwyd Bwffe bendigedig yng Nghastell Cidwm nos Sadwrn Tachwedd 18, gan aelodau'r pwyllgor a'u ffrindiau. Mwynhaodd pawb ei hun a bron methu symud ar ôl y wledd anfarwol a ddarparwyd ar eu cyfer.

YSBYTY — Dymunir adferiad buan i Mr Amos Jones, Bryn Afon a gipiwyd i Ysbyty Môn ac Arfon ddydd Mawrth, Tachwedd 21.

Tan-y-Coed

CYFARFOD GWEDDI UNDEBOL — Cynhaliwyd yr uchod yng Nghapel Tan-y-coed nos Fercher, Tachwedd 1 gyda Mrs Catrin Roberts, Mrs Mary Lloyd Williams a Mr Glyn Owen yn gwasanaethu. Mrs Nancy Roberts oedd yn llywyddu. Yn ystod y gwasanaeth talwyd teyrnged i'r diweddar Barch. George Brewer.

BEDYDD — Prawn Sul, Tachwedd 19 yng Nghapel Tan-y-coed bedyddiwyd Denise, merch fach Mr a Mrs Graham Spencer Roberts, Llanberis. Y gweinidog, y Parch. W.O. Roberts oedd yn gweinyddu. Dymunwn bob bendith i Denise a'i rhieni. Mae mam Denise yn ferch i Mrs Edmund Jones a'i diweddar Mr Edmund Jones, 7 Maes gerddi.

DYMUNIADAU DA — Dymunwr adferiad iechyd i Mr Ifor Williams Cartref, sydd yn ôl eto yn Ysbyty Mon ac Arfon, Bangor.

LLONGYFARCHIADAU i Linda Jones, Pant Clyd ac Anwen Parry Ael-y-bryn ar ennill tystysgrifau ar ddilyn yr ysgol ddydd yn ddi-fwlch yn ystod y flwyddyn 1977-78.

YMWELWYR — Bore Sadwrn, Tachwedd 18 gwelwyd chwech durtu gadwynog yn clwydo ar goeder fytholwyrdd yn yr ardal hon. Gwelwyr dwy o dro i dro yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ond erbyn hyn dymchwech. Clywyd ddwy flynedd yn ôl fod yr adar yma yn rhai prin iawn Ai gwir hyn? Yn ôl un llyfr adar daeth yr adar hyn o'r Cyfandir i Brydain yr 1955 ac maent yn awr yn epilio mewn llawer man ym Mhrydain.

FFAIR NADOLIG — Cofiwch ar noson Ffair Nadolig yn festri Tan-y-coed am 7 o'r gloch nos Iau, Rhagfyr 14. Bydd yr elw tuag at Gronfa Adeiladau Capel Tan-y-coed.

YN EISIAU

'Record Player' i Ysgol Feithrin Llanberis.

Ceunant

I'R YSBYTY — Deallwn fod Mr H Jones, Tir Glas yn yr ysbyty Dymunwn iddo adferiad buan.

O'R YSBYTY — Balch ydym i groesawu Mrs Williams, Tŷ Isaf a Mr Dawson, Bronhafod adref o'r ysbyty Mae'r ddwy wedi cael triniaeth law feddygol. 'Rydym yn falch o ddeall eu bod yn gwella'n foddhaol.

R. Hughes Jones a'r Mab

Cigyddion
BRYN AFON, CRAWIA

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3188

CIG BLASUS I'R RHEWGELL
PRISIAU CYSTADLEUOL
DIGON O DDEWIS, LLE HWYLUS I BARCIO



LLYFRAU

'RHIWEN' (Atgofion Bywyd) — W.M. Hughes, Rhiwen, Deiniolen

YN YSTOD yr wythnos neu ddwy nesaf daw llyfr bro newydd arall ar y farchnad. Teitl y llyfr yw *Rhiwen* — atgofion bywyd Mr. W.M. Hughes, Rhiwen, Deiniolen. Ac yntau ar drothwy dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed y Nadolig hwn bwriedir i'r llyfr hwn fod yn deyrnged deilwng i ddyn a'i trwythodd ei hun drwy gydol ei oes ymhob agwedd o fywyd diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol y fro. Gymaint felly fel mai anodd mesur ei gyfraniad amhrisiadwy i'r fro hon.

Yn gynnar yn ei fywyd bwriodd ei hun i bob agwedd o fywyd bro. Dilynodd linach grefyddol gyfoethog ei deulu drwy lenwi pob swydd bosibl ar gyfer llyegwr yn Eglwys Crist, Llandinorwig. Bu'n dyst i dlodi mawr ddechrau'r ganrif, ac i effaith greulon rhyfel byd 1af. Fe'i profodd ei hun yn ddyn busnes llwyddiannus. Cysylltir ef yn fwyaf arbennig â 'Bysus Rhiwen' — cwmni bysus cyntaf ardaloedd y chwareli. Mewn sawl pennod yn y llyfr cawn atgofion Mr. Hughes o'r cyfnod cyffrous hwnnw pryd y daeth bysus i'r ardal hon am y tro cyntaf. Dilynodd y busnes bysus drwy agor garej yn Neiniolen — Garej Rhiwen. 'Roedd yn un o'r rhai cyntaf i werthu petrol a setiau radio (dyfais gwbl newydd ar y pryd) yn yr ardaloedd hyn.

Fel aelod o deulu cerddorol, mater o amser ydoedd cyn iddo yntau ddangos ei ddawn yn y maes hwn. Dros y blynyddoedd bu'n arweinydd band, côr, cyman-faoedd canu, yn gyfeilydd, cyfansoddwr ac arweinydd eistedd-fodau lleol. Neilltuir penodau cyfan i'w gyfraniad yn y meysydd hyn. Ac yntau ond yn fachgen ifanc bu'n arweinydd ar fand Deiniolen yn y blynyddoedd cyn y Rhyfe I Byd 1af. Cyfansoddodd ddau ddarn cerddorol ar gyfer bandiau pres — 'Elidir' a 'Devil's Kitchen' — darnau sydd yn cael eu cyfrif ymysg y goreuon yn y byd bandiau pres. Bu am flynyddoedd yn arwain corau lleol a chael sawl llwyddiant ar lwyfannau lleol a chenedlaethol. Fe'i profodd ei hun yn feistr ar y maes pêl-droed hefyd fel capten ar dîm lleol y 'Deiniol Swifts'.

Nid oes amheuaeth y bydd tipyn o werthu ar y llyfr hwn. Croniclwyd ei holl atgofion ar gyfer eu cyhoeddi gan Glyn Thomas o Ddinorwig a fu yn bennaf gyfrifol am gyhoeddi'r llyfr bro poblogaidd 'Hiraeth y Chwarelwr' (William Williams). Pris y llyfr yw £1.30 — 138 o dudalennau a 25 o luniau. Cyhoeddir y llyfr gan Wasg Elidir.

MYNYDDA — *Iolo ap Gwynn.*

Bu Cymru, ac yn enwedig yr ardal hon, yn enwog erioed am ei mynyddoedd, ond mae'n syn cyn lleied a wyddom amdanynt, ac am y grefft o'u dringo.

Am y tro cyntaf yn Gymraeg, dyma lawlyfr cwbl ymarferol yn egluro prif reolau mynydda. Cynhwysir ugeiniau o ddiagramau, ffotograffau a chartwnau i wneud y pwnc yn syml a phleserus i'r dechreuwr ac wedi ei ysgrifennu gan arbenigwr yn y maes. *Ceredigion. Pris: £1.45.*

CERDDI HEN FORWR — *Capten Tom Davies.*

Er nad oes gan yr awdur na'i lyfr fawr o gysylltiad â bro'r *Eco*, eto i gyd i'r rhai hynny ohonoch sydd â thipyn o ramant y môr a thrafaelio yn eich gwaed — rhaid i chwi gael y llyfr yn hwn. Bu'r awdur — y Capten Tom — yn swyddog ar longau mawr fel yr *Aquitania* a'r *Cunard* Mary ac yn ddiweddarach yn *Capten* ar saith o longau'r cwmni *Cunard*.

Dyma damaid i'w brofil Y gerdd gyntaf yn y llyfr:

Mae bedd wrth Ynys Bali
Heb ddim i nodi'r fan
Ond croes ar siart rhyw forwr
I'r de o Bulukan,
A nodiad yn y Log-bwc
Mai dyma'r fan a'r lle
Yr huna llanc o Gymro
Dan donau Môr y De.

Ni welir yma'n aros
Rai annwyl ar ei fin
I ollwng deigr yn hiraeth
I gôl y dyfroedd blin,
Ond chwyth awelon Bali
Mewn lleddf ac isel dôn
Fod calon wedi'i thorri
Mewn bwthyn yn Sir Fôn.

Cyhoeddwyd gan *Lyfrau'r Ffôn*, y Bala. *Pris: £1.25.*

TRYDYDD PARSAL WIL
sef William Jones, Parsel Farm,
Trefor, Caernarfon.

Y mae disgwyl mawr am 'Drydydd Parsal Wil' a gyhoeddir gan yr awdur. Bydd ar werth fis Rhagfyr. Ei bris fydd punt. Cyflwynir y Trydydd Parsal er cof am y cyfaill hoff John Morris, Aberdaron. Dywed Griffith Parry yn ei gyflwyniad gwyh i'r llyfr, mai'r unig gwmwl uwchben Y Trydydd Parsal yw'r ffaith nad yw John Morris yma i gario'r gwaith da ymlaen. Yn nechrau'r llyfr y mae llun da iawn o John Morris ynghyd ag englyn o waith Elias Davies Pwllheli "yn sôn am ei wyneb braf". Yna penillion coffa Wil Parsal 'Yr Athro Hoff Aflonydd'. Cynnwys y llyfr hefyd luniau cymeriadau hoffus eraill fel 'Owen Lewis', 'Now Parciau a'i gi', 'Robert Roberts, Robin Llithfaen Isa a'i gi' ac eraill.

HANES MALAN JONES

Ymddiheurwn am beidio dweud mai trwy garedigrwydd Mrs Roberts, Gwynfryn, Llanrug y cafwyd llun Malan a Dafydd Jones i'w roi yn *Eco'r Wydda* y mis diwethaf.

— Golygydd Erthyglau.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Tynnwyd panel o'r set yng Nghapel y Bryngwyn er mwyn i Robert Jones eistedd yn gyffyrddus oherwydd crydcymalau, ac nid oherwydd fod ganddo goes bren. Os gwyddoch yr hanes yn llawn anfonwch i ddweud os gwelwch yn dda.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

Stadtefreundschaft

BURGERMEISTERIN EMPFING

MITTWOCH KONZERT

Na 'tyda ni ddim wedi gwallgof ymddangosodd yn un o bapurau at berfformiad Band Arian Deiniol Mae'n bleser gan yr *Eco* adrodd a gadwyd o'r ymweliad.

Llun 1 ar y dudalen flaen: y Seindorf yn gadael Deiniolen am yr



Mynwent ryfel Oosterbeck, Arnhem, Yr Iseldiroedd.
10 a.m. ddydd Llun, Hydref 16.
Chwaraeodd y band 'Blaenwern' dan arweiniad Mr. J. E. Morris, ac

'Eventide' dan arweiniad Mr. Eric Foster.
Nifer o 'Jones' ac 'Evans' ym mysg yr 'Anhysbys gerbron Duw'.



Dydd Iau, dygwyd Carys Williams (Ty Capel Disgwylfa, Deiniolen) i'r ysbyty ble cafodd dynnu llid y coluddyn. Er ei

bod yn gwenu yn y llun, bu'n hiraethu nes cael cyrraedd Deiniolen, Tachwedd 12, dair wythnos ar ôl y band.

Siop Anrhegion y Plas

(PALACE GIFT SHOP)

ANRHEGION — ADDURNIADAU
— GEMWAITH

Hefyd

DAFEDD gan Sunbeam a Hayfield

STRYD Y PALAS, CAERNARFON

Ffôn 3091



ft an der 'basis'.

SILVER BAND" AUS BANGOR

IM MORGNERHAUS

ym Eco'r Wyddfa. Dyma bennawd a Almaen ar Hydref 20fed yn cyfeirio yn yn ôl y pennawd.

stori trwy lun a rhan o ddyddiadur

Almaen ddydd Sadwrn, Hydref 14 am 9 a.m. — dagrau yn llifo !



Dydd Iau, Hydref 18: Aeth y band i'r Burgomuseum (neuadd y dref) i dderbyn croeso swyddogol gan y Maer, Frau Kipper. Dyma lun Frau Kipper

Digwyddiadau a dywediadau digri

Thomas Williams yn edmygu caeau yr Iseldiroedd gymaint nes dweud — "Mi f'asa'n anrhydedd cael bod yn fwgan brain mewn cae fel 'na!'"

Ambell un yn meddwl am Ddeiniolen wrth ymweld ag archify Soest, ble'r oedd 50,000 o lyfrau, a Hefin Goronwy Jones yn rhyfeddu nad oedd un o lyfrau John Evans, Yr Iard, yno!

Trafferth deall yr arian!

Deliasom ag arian Prydain, yr Iseldiroedd, yr Almaen a gwlad Belg o

gyda Meirion Jones (Ysgrifennydd) a J.E. Morris a Tommy Williams, dau aelod hynaf y band.

fewn wythnos. Mae Tommy Parry yn poeni byth ers iddo sylweddoli ei fod wedi talu £34 am felt lledr!

Pan tŷ bach rhyfedd — gyda silff oddi mewn. Meddai Ellis Wyn Williams — "Byddai'r daint 'ma gen i heddiw, 'tae gennym ni rai fel hyn adra."

Cyngerdd

Mercher Hydref 18 — 7.30 — cyngerdd mawreddog.

Ar ddiwedd y cyngerdd, cyflwynwyd bechgyn y band â photel o 'schnapps, a merched y band â thusw o flodau, gan grŵp o ddawnsyrwyr traddodiadol.

ALLAN RHAGFYR 8fed

LLYFR BRO

COFIO DEINIOLEN

gan
GRACIE OWEN

75c (85c drwy'r post)

Cyhoeddwyd gan Siop y Pentan,
yr Hen Farchnad, Caernarfon.

Ffôn: 5262

HANES MALAN JONES

Llain Gwta,
Mountain View,
Llanrug.

Annwyl Olygydd,

'Malan Jones y Fydwraig'

Carwn alw eich sylw at ansawdd ffeithiol yr erthygl uchod yn y gyfres 'Agor Ffiniau'r Gorffennol' yn rhifyn Tachwedd o'r Eco.

Gwir y gelwid Mary Jones yn 'Malan Jones, Penlon' oherwydd iddi gychwyn ei bywyd priodasol, gyda'i gŵr, Dafydd Griffith, yn y bwthyn rhif 8 Tai Bryngwyn; sydd wrth ben y lôn bach sy'n arwain at Tŷ Jerri, heibio cefn Becws Bryngwyn.

Yn ôl ei gor-wŷr, Mr Thomas John Jones, 59 Y Glyn, Caernarfon, dyna pam cyplysid ei henw â'i chartref cyntaf pan symudodd i'r tyddyn, Groeslon Newydd. Yn ôl arferiad y ganrif ddiwethaf, glynodd wrth ei henw morwynol rhagor na mabwysiadu cyfenw ei gŵr, Dafydd Griffith a oedd yn fab i John ac Ann Griffith, Penrhos, Llanrug, ac yn frawd i'm nain, Jane Griffith, ar du fy nhad.

Gwn hyn o ffrwyth ymchwil yng Nghyfrif y Bobl 1841.

Mabwysiadodd y mwyafrif o'u plant y cyfenw Jones, ond John Griffith a alwai ei mab yn America ei hun pan fu ar ymweliad â'i fam yn y dau-ddegau cynnar. Er y tueddai rhai i

feddwl am Groeslon Newydd (oedd yn Bryn Goleu yng Nghyfrif 1841) fel Penlôn, camargraff dybryd ydyw.

Gwir yw yr hanes am ei gwasanaeth fel bydwraig vyf fi fy hun yn un o 'gywion maian' fel eraill yn y gymdogaeth.

Nid brawd i Dafydd oedd Robert Jones ond ei fab hynaf. Y mae ei deulu yn y Waunfawr, ei wŷr a'i wyres yn Sir Gaerhirfryn a'i or-nai yng Nghaernarfon yn ddig am y camargraff a roddir amdano yn yr erthygl.

Gwir fod Robert Jones, a drigai yn 2 Pantycod (Tai Maesgerddi yn awr) yn aelod selog yn y Bryngwyn (A), ond, nid oedd ganddo goes bren o gwbl. Ymddengys iddo dorri ei goes yn y chwarel a chât gryn drafferth i gerdded ac eistedd gan fod yr aelodau yn cyffio. 'D oedd ei orchwyl fel torrwr cerrig ar fin y ffordd i'r Cyngor Sir ond yn ei lethu, a hawdd deall mor anystwyth y gallai fod yn oedfaon y Sul. Credir iddynt symud panel o goed ym mlaen y sedd fel y gallai ymestyn ei goesau yn yr oedfa ac felly leddfu y gwayw yn ei goesau.

Diolch am ofod yn yr Eco i unioni'r camargraff a ellid ei gael gan ddarllenwyr yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir,
Robert Williams.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Anfonwyd y llythyr canlynol gan Miss C.J. Roberts, Fron, Station Road, Llanrug:

"Dyma fi yn anfon gwybodaeth am Mrs Mary Jones, sef Malan Jones, y fydwraig hoff a 'Nain Jones Penlôn' i mi. Efo fy mam, y ddiweddar Mrs Kate Roberts, Bryn Ffynnon, Bryniau Fawnog, y bu hi ddiwethaf pan anwyd yr efeilliaid Glyn ac Arthur ar Awst 29, 1919. Yr oedd y ddiweddar Mrs Lily Williams, Glangors yn ei chynorthwyo, am fod ei golwg yn pallu.

Yr oeddwn i yn ddeg oed ar y pryd. Mi gofias yn dda Malan yn dweud wrthyf mai hi ddaeth â fi i'r byd a'i bod am gadw'r bag bach du rwan. Byddai Malan bob amser yn rhoi chwe cheiniog gwyn yn llaw pob baban. Ar ei hôl hi fe

ddaeth y ddiweddar Mrs Parry, Cefn Coch yn fydwraig. Yr oedd Mrs Parry yn chwaer i'r ddiweddar Mrs Laura Grace Owen, Isallt, Pontrhythallt. Nid wyf yn cofio neb arall, ar ôl Mrs Parry. Mi ddarfu hi roi ei gwaith i fyny pan aeth Dr. William Grey Hughes, y Waunfawr i ffwrdd yn 1956.

Yr oedd Malan Jones yn naw deg oed yn ymddeol.

APÊL

Os oes gennych unrhyw wybodaeth, os gwelwch yn dda a wnewch ei hanfon i Olygydd Eco'r Wyddfa er mwyn cael y manylion yn gyflawn. Rhaid ysgrifennu'r hanes ar bapur cyn y gellir ei gyhoeddi. Diolch i bawb sy'n barod i helpu gyda hanes Malan Jones. Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad.

CYMDEITHAS

TAI GWYNEDD



Mae'r Gymdeithas elusennol hon wedi darparu 30 o gartrefi i bobl ym mhentrefi Gwynedd yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Buddsoddwch yn awr i sicrhau: 1) Cartrefi i Gymry.

2) Gwaith i Gymry

3) Llog i chi ar eich arian.

Danfonwch sic, neu am fwy o fanylion, at: Dafydd Iwan, Cymdeithas Tai Gwynedd, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd.

PENISARWAUN

WEDI GWELLA — Balch ydym o weld Eiriona Williams a Pat Larsen wedi gwella ar ôl triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Dewi Sant. Dymunant ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt tra yn yr ysbyty ac ar ôl iddynt ddych-welyd yn ôl i Benisarwaun.

DAMWAIN I ANWEN — Cafodd Anwen ddamwain wrth ymarfer Judo. Ar ran y pentref, yr ydym yn dymuno adferiad buan iddi.

GADAEI Y PENTREF — Yn anffodus i'r pentref, bydd Geraint Edwards, y ficer a'i wraig Mrs Edwards yn mynd oddi yma i blwyf ar Ynys Môn. Bydd colled ar ei ôl; yr oedd yn barod iawn ei gymwynas ac yn help mawr yn ystod Carnifal, Chwaraeon ac ati yn y pentref. Yr oedd ei sirioldeb yn ffisig i ni i gyd. Pob bendith arnoch chi, Geraint a Mrs Edwards yn eich bro newydd.

GWIBDAITH I GAER — Bydd Mrs Margaret Williams yn trefnu gwibdaith i Gaer eto eleni ar yr ail o Ragfyr.

CROESO I'N PLITH — Croeso i Rys Owain i'n plith. Llongyfarchiadau i Mr a Mrs A. Elliott, Bryn Eglwys ar enedigael Rhys.

PRIODAS ARIAN — Llongyfarchion i Ron Hughes a Betty Eiddwen ar eu priodas arian.

PRIODAS — Dymuniadau gorau i Ieuan Griffith, Bryntirion ar ei briodas Pob hapusrwydd a bendith i Mr a Mrs Ieuan Griffith.

CLWB YR HENOED — Bydd aelodau Clwb yr Henoed yn cael eu swper Nadolig eleni yn Erw Fair, Llanberis nos Iau, Rhagfyr 14.

PARTI'R HEULWEN — O hyn ymlaen bydd Parti'r Heulwen yn ymarfer yn ysgol Tan-y-coed. Dymuna'r Parti ddiolch i Mr Len Jones, y prifathro am ei garedigrwydd a'i gydweithrediad.

PEN-BLWYDD YN 90 — Llongyfarchiadau i Miss Miriam Thomas, Ty'n 'Radd sydd wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Dachwedd 16.

EGLWYS SANTES HELEN — Caed cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun, Tachwedd 6. Hwn oedd cyfarfod olaf y tymor a'r cyfarfod diwethaf yng nghwmni'r ficer a Mrs Edwards cyn iddynt ymadael i blwyf newydd ym Mon. Dymunwyd yn dda iddynt.

Llongyfarchwyd Mrs M.K. Jones, Tŷ Gwyn ar fod yn nain. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs S. Roberts, Ship Cottage a hefyd i Mrs Eiriona Williams sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Rhoddwyd y te gan Mrs N.M. Pritchard a Mrs E. Williams. Dydd Sul, Tachwedd 19 bedyddiwyd merch fach Mr a Mrs D. Jones, 5 Tai Arthur gan y ficer.

CARDIAU — Os oes gan rywun hen gardiau Nadolig a phen-blwydd ac eisiau cael gwared â hwy, buasai Mr Bryn Griffith, 5 Bryn Tirion yn falch o'u derbyn.

AR WERTH

2 Feic Racer 3 gêr i fachgen
14 oed i fyny
1 Beic geneth o wyth i ddeg oed
1 Beic bachgen o wyth i un-ar-ddeg oed
Rhif: Y Felinheli 680 861.

Merched y Wawr Arfon
yn cynnal

FFAIR GAEAF
yn Neuadd y Fyddin
(Drill Hall), Caernarfon
ddydd Sadwrn,
2il Rhagfyr am 2.00 p.m.

NADOLIG LLAWEN YNG NGHWMNI SAIN I CHI A'R PLANT — AC I TAID A NAIN!

SAIN 1129D — VERNON A GWYNFOR
SAIN 1125D — CAROLAU NADOLIG gan
GANTORION CLWYD
SAIN 1131D — MARIAN ROBERTS,
Enillydd Rhuban Glas Caerdydd 1978
SAIN 1133D — DELME BRYN JONES ac ANN
GRIFFITHS — "Cytgord Aur Dannau"
SAIN 1136D — TELYN CYMRU III — Goreuon Cerdd
Dant Cymru

POP

SAIN 1140D — ROSALIND A MYRDDIN —
Eu record gyntaf wych!
SAIN 1128M — GERAINT JARMAN A'R
CYNGANEDDWYR — "Hen Wlad Fy Nhadau"
SAIN 1139M — SHWN — "Wodwl"
SAIN 69E — TRAED WADIN — "Potel Fach o Win"
SAIN 70E — "AFONYDD BABILON — CÔR PLANT
YSGOL GYFUN LLANGEFNI



sain

Sain (Recordiau) Cyf Ffordd Llanilyfwr Pen-y-groes, Caernarfon, Gwynedd LL54 6DB
Ffôn: Pen-y-groes (STD 028 681) 732

Eisteddfod Genedlaethol Frenhinol Cymru CAERNARFON 1979

RHAI O'R CYSTADLAETHAU LLENYDDOL

Braslun o hanes Chwarel Dinorwig	£100
Gwobr Goffa Daniel Owen Nofel	£500
Awdl: Gwynedd	Cadair a £100
Pryddest: Dilyniant o Gerddi Serch neu Siom	Coron a £100
Englyn: Bendith	£20
Englyn Crafog Beddargraff	£50 i'w rannu
Englyn Coffa I Gymro neu Gymraes a fu farw'n ddiweddar	"
Cywydd Dychan Y Ffordd Osgoi	£20
Awdl enghreifftiol ysgafn yn cynnwys pob un o'r 24 mesur	£50
Soned: Harbwr	£20
Telyneg: Adlais	£20
Baled: Unrhyw ddigwyddiad cyfoes	£20
Cyfrol o Gerddi	£100
Opera Roc i barhau am oddeutu 40 munud. Caniateir cywaith	£50
Stori Fer	£50
Nofel gyfres addas i wythnosolyn, 12 pennod, oddeutu 35,000 o eiriau	£100
Stori bywyd unrhyw gymeriad diddorol, oddeutu 25,000 o eiriau	£100
Nofel i blant 11-13 oed seiliedig ar chwedloniaeth neu hanes	£100
Llyfryn Hyfforddi ar gyfer unrhyw gêm	£50
Llyfryn Cyfarwyddyd ar Droï Llaw at waith o gwmpas y tŷ	£50
Casgliad o Ymadroddion a Dywediadau Llafar Gwlad	£50
Llythyrau Ffarmwr oddeutu 25,000 o eiriau	£100
Dwy bennod o nofel i blant rhwng 13-15 oed ynghyd ag amlinelliad byr o weddill y nofel	£25. Comisiwn o £250 am orffen y nofel
Cyfres o straeon byrion ar gyfer Dysgwyr mewn iaith ogleddol safonol	£50
I Ddysgwyr	
Traethawd tua mil o eiriau ar waith proffesiynol, crefft neu hobi'r cystadleuydd	£20 i'w rannu

DRAMA

Comedi neu ffars ar gyfer cwmnïau drama gwledig	£200 a'r hawlfraint
Drama hir	£200 a'r hawlfraint
Drama fer	£100 a'r hawlfraint
Sgript Gomedi teledu a gymer hanner awr i'w chyflwyno	£75 a'r hawlfraint
Trosi unrhyw libretto hir, gan Gilbert a Sullivan	£50 a'r hawlfraint
Derbynnir cywaith	£50 a'r hawlfraint
Drama fer ar gyfer cwmni o ferched	£50 a'r hawlfraint



I gael manylion llawn am yr holl gystadlaethau mynnwch gopi o'r Rhestr Testunau o'ch siop lyfrau leol neu o Swyddfa'r Eisteddfod, Twil, Caernarfon, Ffôn: 5215.
Pris: 50c, 70c drwy'r post.
Dyddiad cau: 1 EBRILL 1979.

BRYNREFAIL

TÂN GWYLLT — Ar Dachwedd 4 mwynhawyd noson ddifwr yn y cae chwarae lle cafwyd coelcerth ac arddangosfa tân gwyllt. Darparwyd cawl blasus gan Mrs Walton, Pen y Graig. Casglwyd £50 yn y pentref a dymunwn ddiolch i bawb am eu cyfraniadau a'u cymorth.

CLWB YR HENOED — Cyfarfu'r Clwb yn Nhŷ Glas ar Dachwedd 7 a threuliwyd noson ddifwr yng nghwmni Mrs Elinor Jones o Ddeiniolen a roes sgwrs ar ei hymwelid â Norwy gyda lluniau o olygfeydd hardd o'r wlad. Diolchwyd i Mrs Jones gan Mr M. Foulkes, Bryn Derw. Rhodod y te gan Mrs Megan Jones a Mrs Eifiona Jones.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL — Ar Dachwedd 8 darlithwyd ar y 'Dynwaredwr' gan y Parch. R.O.G. Williams. Mwynhawyd y ddarlith yn fawr iawn a diolchwyd i Mr Williams gan Mr Islwyn Williams. Enillwyd anrheg y mis, a roddwyd gan Mr Islwyn Williams, gan Mrs H. J. Jones, 7 Tremeilian.

CLWB Y MAMAU — Ar Dachwedd 9 daeth y mwyafrif o'r aelodau ynghyd yn yr ysgol i wyllo arddangosfa ar dorri gwallt gan Mr Derek Rees o'r 'Cutting Parlour' yng Nghaernarfon. Mentrodd Mrs Gill Harris o Gwm-y-glo fel model. Rhoddwyd y te gan Moira Ellis a Jackie Jones. Rhoddwyd anrheg y mis gan Rhian Jones ac fe'i henillwyd gan Gill Harris.

CLWB PEDWAR UGAIN — Enillwyd y mis. **HYDREF 27:** 1) D.G.Ellis, Gwledfa; 2) Sheila Williams, Bryn Hyfryd; 3) Elwyn Jones, 1 Tremeilian. **TACHWEDD 4:** 1) O.J.Williams, Bryn Melyn; 2) Moira Ellis, Gwledfa; 3) Mrs Hasson, Bryn Myfyr. **TACHWEDD 11:** 1) Owen Walters, 3 Minfordd; 2) Owen Roberts, Llwyn Helyg; 3) Dwynwen Owen, Tros yr Afon; **TACHWEDD 18:** 1) Jennie Roberts, Pen Llyn; 2) Phyllis Jones, Gors; 3) Ann Jones, 1 Tremeilian.

Cynhelir Cinio Nadolig a dawns yng Ngwesty'r Marine yng Nghaernarfon ar Ragfyr 9.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Ar Dachwedd 15 daeth 13 o aelodau ynghyd a chan ei bod yn gyfarfod blynyddol croesawodd y llywydd Mrs Treen a Mrs Jones atom o Gaernarfon. Cafwyd adroddiad o'r flwyddyn gan yr ysgrifennydd a hefyd adroddiad ariannol gan y trysorydd. Etholwyd deg ar y pwyllgor ac ail-etholwyd y ddwy ysgrifennydd, Mair Williams a Jennie A. Roberts. Llywydd: Jennie Hughes; Is-lywydd: Gwyneth Jones; Trysorydd: Jennie Williams. Gohebydd y papurau: Eifiona Jones. Cafwyd adroddiad gan Gwyneth Jones o Gyngor yr Hydref ym Methesda. Cawsom arddangosfa gan Mrs Jones o'i gwaith collage a hardd iawn oeddynt hefyd. Diolchwyd i'r trysorydd oedd yn ymddiswyddo am bob cymorth a gafwyd ganddi. Croeso yn ôl hefyd i Mrs Knox sydd yn ailymuno. Llongyfarchwyd Jennie Williams ar ddathlu ei phen-blwydd.

YN YR YSBYTY — Trist yw clywed fod Mrs Doreen Williams yn yr ysbty eto. Mae Mrs Williams yng Ngallt y Sil a dymunwn wellhad buan iddi. Dymunwn lwyrr wellhad hefyd i Mrs Williams, Glanffrwdd, sy'n cwyno ers tro gyda'r eryr, ond da yw clywed ei bod yn mendio.

DYMUNIADAU DA i Doris Ann Roberts (Morris gynt, o Fryn Llwyd, Brynrefail) a briodwyd i Mr Glyn Roberts yng Nghapel Brynrefail ar Hydref 21. Gweinyddwyd gan y Parch. H. Angell Jones, cyn-weinidog Brynrefail. Pob lwc i'r ddau. Da hefyd yw clywed fod Dilwyn Morris wedi dod ato'i hun ar ôl ei ddamwain.

WAUNFAWR

CLWB Y MAMAU — Nos Iau, Tachwedd 9 cafwyd noson gyda'r Cynghorydd Beti Williams a'i mab Raymond. Mwynhaodd pawb ei chyfraniad a diolchwyd iddi gan Margaret Eagleston. Rose Ann Hughes oedd yn y gadair. Rhoddwyd y raffl gan Mary Williams ac fe'i enillwyd gan Brenda Jones. Gweteion y te oedd Rhian Evans, Brenda Jones a Grace Williams. Bydd y cyfarfod nesaf yn Snowdonia Park Hotel ar Rhagfyr 14. Disgwylir i bob un o'r aelodau fuasai'n hoffi mynd roi ei henw i law erbyn Rhagfyr 9.

MERCHED Y WAWR — Ar Hydref 26 treuliwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Mr W.V. Jones, Pontllyfni. Siaradodd am ei daith ddiweddar i Daiwan. Llywydd y cyfarfod oedd Alma Jones a rhoddwyd y diolch- iadau gan Gillian Wyn. Darparwyd y te gan Bet Hughes, Valmai Williams ac Irene Roberts. Enillydd y raffl oedd A. Roberts. Cynhelir y cyfarfod nesaf yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis ar Dachwedd 23, lle ceir y cinio Nadolig eleni.

NOSON GOFFI — Mae Ysgol Sul Croesywaun yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth i'w Noson Goffi. Bydd yr elw yn talu am saith copi o 'Feibl y Plant mewn Lliw' at ddefnydd yr ysgol.

CYDYMDEIMLAD — Hoffem gydymdeimlo â Mr R. Gwynn Davies ar farwolaeth ei fam, Mrs Jane Davies, Glanfa ar Dachwedd 6 yn 90 oed. Hefyd bu farw Mr Harry Jones, Bryn Hyfryd yn 79 oed. Cydymdeimlwn â'i wraig Mrs Sarah Jones.

Yn ei chartref ym Mhlas Gwyrfa'i bu farw Mrs Anne McDonald yn 76 oed ac estynnwn gydymdeimlad â'i mab Mr John McDonald.

LLONGYFARCHIADAU — gwresog i Kenneth Leathley Jones, unig mab Mrs Eirlys Jones ar ennill ei Ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Cymru ar waith yn ymdrin â bacteria yn y môr. Bu Kenneth yn gweithredu'n ddiweddar ar ymchwil i Adran yr Amgylchedd yn Cumbria a chyn bo hir bydd yn cychwyn ar waith ym Mhrifysgol Reading.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL — Erbyn hyn mae'r Gymdeithas wedi dechrau ar ei thymor newydd a chafwyd tri chyfarfod arbennig o dda eisoes. Agorwyd y Gymdeithas eleni gyda sgwrs ar 'Fyd Natur' gan Mr Arthur Vaughan Jones, Pwllheli. 'Roedd gan Mr Jones ddull cwbl wreiddiol o gyfleu ei wybodaeth a chafwyd cryn ddifffyrwch yn ei gwmni. Mae Mr. Jones wedi arbenigo ar astudio pryfaid a dangosodd ei gasgliad gwyb, ffrwyth blynyddoedd o waith, i'r aelodau. Llywydd y noson oedd Mr Emyln Davies a Mr T.H. Williams, Drws y Nant a ddiolchodd i Mr Jones. Fel y gellid disgwyl 'roedd noson Mrs Mary Awstin Jones yn hynod o ddifwr. Am gymeriadau ardal y Waun yn bennaf y soniodd a chafwyd, gyda chymorth Siôn, glywed lleisiau rhai ohonynt ar dâp. Hen gymeriadau a fu oedd llawer ohonynt ond 'roedd ganddi enghraifft o un cymeriad cyfoes sy'n byw yn y Waun heddiw. 'Roedd llywydd y noson Miss Marilyn Roberts yn falch iawn, medda' hi, o gael ei hargyhoeddi fod yna gymeriadau difyr o hyd ar gael yn y Waun. Diolchwyd yn gynnes i Mrs Jones gan Mrs Menna Williams. Yn noson Mrs Katie Wyn Jones cafodd pob aelod gyfle i gymryd rhan mewn cwis. Bu hon yn noson gartrefol braf a chafwyd hwyll yn enwedig wrth geisio dynwared campau, dewinol bron, Mr. E.Wyn Jones. Llywyddwyd gan Mrs Margaret Owen a fu hefyd wrthi'n ddygn yn cadw sgôr. Mr Idris Owen oedd yn cynnig y diolchiadau. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun,

Rhagfyr 4 pryd y bydd Mrs Gwen-eirys Jones yn sôn am "Daw C'lame... Y flwyddyn mewn rhigymau. Mr. R. Gwyn Davies fydd yn y gadair.

PLAID CYMRU — Cynhelir Ffair Nadolig y Blaid yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 nos Wener, Rhagfyr 8.

EISTEDDFOD Y PENTREF — Cynhaliwyd eisteddfod lwyddiannus iawn unwaith eto yng Nghapel Croes y Waun ddydd Sadwrn, Tachwedd 11. Dyma'r enillwyr:

CANU DAN 5: Kevin Tame; 5 i 7: 1. Garem Jackson a Telor Hedd; 7 i 9: Elli Haf, Cân Actol Dan 7: 1. Parti'r Llyffant Bach Melyn. Dan 11: 1. Twm Siôn Cati. Chwarae Recorder: Dan 9: Parti Iwan. Dan 11: 1. Parti Dafydd. Canu'r piano: Dan 11: Grŵp 1: Huw Ynry Jones. Grŵp 2: Kevin Roberts.

Parti Canu dan 9: 1. Parti Siân. Canu 9 i 11: 1. Kevin Roberts. 11 i 13: Nicola Roberts. Canu Piano o dan 14 oed: 1. Gwyneth Ellis. Offeryn Llinynol o dan 18: 1. Joanne Weal; Offeryn Chwyth o dan 18: Grŵp 1: Anthony Marston.

Grŵp 2: Elli Haf, Iwan Ellis a Joanna Marston. Canu 13 — 15: Ann Dawson. 15 i 18: Nia Pritchard. Canu Penillion: Nia Pritchard. Canu'r piano dan 18: Nia Pritchard. Deuawd Piano: 1. Ann ac Anthony Marston. Offeryn Chwyth: Gareth Jones, Parti o dan 18: Parti Janet. Cân Werin dros 25: Alun Williams, Unawd Gymraeg: Humphrey Jones. Cân Ddisgrifiadol. 1. Y Bugeiliaid. Cân Bop: 1. Neil Johnstone a Nia Pritchard. Deuawd Ann a Jeanette.

Grŵp Pop 1. Ogle Da. Côr: 1. Côr ni. Adrodd dan 5: Rhys. 5 i 7: Karen. 7 i 9: Nan Wyn. 9 i 11: Penny Walters. Côr Adrodd dan 11: 1. Parti Bryn Meurig; Adrodd 11 i 13: 1. Siân Thomas. 13 i 15: Ceri Thomas. 15 i 18: Anna Lloyd Hughes. Adrodd i ddysgwyr: Wyn Morris; Dros 25: Myra Turner. Côr Adrodd: Côr Tanyfron.

Adrodd i gyfeiliant: Margaret Owen. Deialog: Janet a Grace.

Arlunio dan 7: Debra Roberts. Dan 9 Dafydd Morris. Dan 11: Alan Benham a Ioan Morris. Dan 15: Nicola Roberts Agored: Gwilym Hughes.

Coginio dan 12: Siân Davies; 12 i 18: Ann Dawson. Cacen ffrwythau: Mrs Jones. Gwau Sana: Beryl Jones, Gwasgod: K. Wynn Jones, Gwisg binaffor: Beryl Jones. Tray cloth: Mrs Peggy Jones. Traethawd 15 i 18: Anna Lloyd Hughes. Barddoniaeth dan 15: Gethin Williams. 15 i 18: Anna Lloyd Hughes. Drama un act Marion Iwan. Cerdd (agored) Eurig Wyn. Stori Fer: Marion Iwan. Ateb Hysbyseb: John Gwynedd Jones. Llinell Goll: T.H. Williams.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL — Cyfarfu pwyllgor o'r gangen leol yn ddiweddar i drafod cynlluniau i godi rhagor o arian at y gronfa leol. Yn ei adroddiad dywedodd y llywydd fod y gronfa wedi cyrraedd y swm o £1,436 allan o'r nod angenrheidiol o £2,000. Datganodd y pwyllgor eu diolch i'r cyfeillion o Betws Garmon am rodd o £40, sef elw cyngerdd Parti Llwyn-dyrus.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf bu rhai o aelodau'r pwyllgor yn brysuro yn casglu arian o ddrws i ddrws a dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd am eu haelioni.

Cynhaliwyd cyngerdd yn Festri Bethel nos Wener Hydref 13 ond siomedig iawn oedd y cynulliad. Cafodd yr ychydig a ddaeth ynghyd flasu noson hwyliog a difyr yng nghwmni 'Parti'r Bryniau'.

CEFNOGWCH
EN
HYSBYSEBWYR



'Rydym yn hynod ddiolchgar i Mrs Eileen Roberts, Stryd Bethesda, Llanberis gynt, sydd yn awr yn byw yn Earls Barton, Northampton am y rhodd tuag at gostau cynhyrchu'r Eco. Rydym yn falch o'ch gweld yn mwynhau'r Eco.

CYFARFOD ARFON O'R YSGOLION MEITHRIN

Nos Iau, Hydref 30 treuliwyd noson hynod ddifwr yn Ysgol Pendalar, Caernarfon. Cafwyd noson addysgiadol iawn dan ofal Mrs. Gwennan Owen, ein cynghorydd cenedlaethol, yn arddangos pethau i'w gwneud ar gyfer y Nadolig. 'Roeddem i gyd yn teimlo'n ddiolchgar iawn iddi am ei chynghorion derbyniol iawn. Estynnwyd y croeso cynhesaf i Mrs. Margaret Bowen Rees, ein swyddog cyswllt newydd. Dymunwn yn dda iddi yn y swydd newydd.

Bydd y cyfarfod nesaf yn y Normal, Bangor, am 7.30 o'r gloch ar y cyd gyda Sir Fôn ar Dachwedd 29.

STORFA

Mace

O.R. & M. PARRY

Sgwâr Llanrug

Caernarfon 2790

Perchnogion newydd,
ond gwasanaeth a chroeso
cystal ag erioed!

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW



BP heat
A SHELL-MEX

Dim un dasg rhy fychan.
Dim un dasg rhy fawr.

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



CROESO i'r Llannerch ar ddiwedd mis Tachwedd — mis y tuchan. Llawenydd oedd gweld plant Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen yn llwyddo unwaith eto — y tro hwn yn yr Ŵyl Gerdd Dant yng Nghorwen.

'Fedra' i ganu'r un nodyn, ond 'rwy'n mwynhau gwrando ar ganu gyda'r tannau a byddaf yn ymfalchïo yn y ffaith mai rhywbeth sy'n perthyn i ni fel cenedl yn unig yw'r math yma o ganu. Ys gwn i pa Bwyllgor Addysg yng Nghymru fydd y cyntaf i sicrhau fod plant pob ysgol gynradd yn cael y cyfle i ganu hefo'r tannau, ac i ddysgu'r cynganeddion hefyd? Mae'n ddyletswydd arnom i gadw'r pethau sy'n perthyn i ni, ac i ni yn unig. Ond 'does dim angen poeni — 'roedd plant bach Cymru wrth eu bodd yn canu yng Nghorwen, ac 'roedd y safon yn uwch nag y bu erioed yn ôl y beirniaid.

Nos Fawrth, yn dilyn yr Ŵyl Gerdd Dant, cawsom ddarlith hynod o ddiddorol gan yr Athro Bedwyr Lewis Jones yng Nghanolfan Tan-y-bont, Caernarfon. Ei destun oedd "Robert Williams Parry", ac 'roedd pob un ohonom yn mynd oddi yno yn gwybod llawer iawn mwy am "Fardd yr Haf". Gresyn fod cyn lleied yn troi i mewn i ambell ddarlith. Mae rhai ohonoch yn sgwennu i mi ac yn awgrymu cael cyfarfodydd o'r math yma. Da chi — trowch i mewn i Ganolfan Tan-y-bont, ambell i nos Fawrth yn ystod y gaeaf 'ma.

Diolch i chwi John V. Morris, Clwt-y-bont am eich ymateb unwaith eto. Diolch am eich llythyr a'r gerdd "Nadolig Heddiw". Ynglŷn â dysgu'r cynganeddion — mae poster i fyny yng Nghanolfan Tan-y-bont yn gofyn am enwau rhai sydd â diddordeb i'w dysgu — Gwnewch ymholiadau yno.

Rhianfa,
Clwt-y-bont,
Deiniolen.

Annwyl Selwyn Griffith,

'Roeddwn yn meddwl fod awgrym Mrs Enid Jones o gael ysgol yng Nghaernarfon yn syniad da iawn, buaswn yn hoffi dysgu'r cynganeddion.

Cefais bleser mawr yn darllen ei cherdd am hiraeth bro, gan fy mod yn adnabod y lle yn iawn.

'Roeddwn yn hoffi syniad Dafydd Whiteside hefyd; buasai cael Steddfod y Llannerch yn dipyn o hwyl, ac yn rhywbeth i edrych ymlaen ato bob mis.

Amgaeaf gerdd fach a luniais at y Nadolig, ar ôl darllen eich cais mis diwethaf.

Yr eiddoch yn gywir,
John V. Morris.

NADOLIG HEDDIW

Mae ugain canrif wedi mynd,
A'r Dolig yn nesau;
A dim ond mis sydd 'nawr ar ôl,
Cyn i'r holl siopau gau;

A phwy sy'n dathlu geni Crist,
A chofio'r stori gain?
A chofio'r holl anrhegion ddaeth,
Y Doethion draw o'r Dwyrain.

A phwy sy'n cofio'r seren dlos,
A chofio baban Mair?
Pan gafodd Iesu Grist ei hun,
Ei eni yn y gwair;
Nadolig heddiw sydd yn ffars,
A dyn yn lladd ei frawd;
A'r dyn cyfoethog sydd o hyd,
Yn feistr ar y tlawd.

Rhaid cofio pwrpas dathlu'r Ŵyl,
Er mwyn y diwrnod gwiw;
Pan ddaeth Tywysog Mawr o'r Nef,
A'i brofi'n fab i Dduw.
I ddangos i baganiaid ffôl,
Mai Duw sydd yn teyrnasu,
I ddangos unwaith ac am byth,
Mai'n Ceidwad yw yr Iesu.

John V. Morris.

Mae eich carol chwi, Miss Nancy White, 49 Maes Gwynedd, Caernarfon yn fy meddiant ers yn agos i flwyddyn. Fe'i derbynias yn rhy ddiweddar i'w chynnwys y llynedd. Dyma fi'n ei chyhoeddi mewn da bryd eleni. Diolch yn fawr i chwi am y gerdd, ac am eich dymuniadau da i'r Llannerch a'r Eco.

Y NADOLIG CYNTAF

Un noson dywyll, dawel,
Yn nhref bach Bethlehem,
Ganwyd i ni Frenin
Heb goron ar Ei ben.
Ystabl gwael a phreseb
Oedd iddo Ef yn rhan,
Ond peraid gan angylion
A glywir uwch y fan.

Un seren ddisglair safai
Uwch ben Ei orsedd Ef
Yr oedd yn ganmil harddach
Na'r gemau is y nef;
Â gwên yr haul ei hun,
Goleuai'r 'stabl tywyll
Gan geisio Ei groesawu
'N gynhesach na wnaeth dyn.

Eisteddai Mair a Joseff
O gylch y preseb llwm
Gan sylu ar y baban —
Goleuni'r byd oedd Hwn.
O, hyfryd Faban Iesu
Mor hawddgar yw dy fryd,
Yn dod i lawr o'r nefoedd
I achub euog fyd.

Fe gofiwn am yr amser
Draw, draw ym Methle'm dref
Pan anwyd i ni Geidwad
Dan olau glân y nef.
Mewn cariad fe ddaeth atom

Pur gariad, gwerthfawr Duw.
Anghofiwn ninnau'n dicter,
Cans dydd Nadolig yw.

NANCY WHITE,
CAERNARFON

Fe gewch chi, Mary Lloyd Williams, y gair ola' am y tro. Can diolch i chi am anfon y gerdd a gyfansoddwyd gennych ar gyfer dathlu canmlwyddiant Capel Hermon, Llanrug. 'Roeddwn wedi meddwl cael gair hefo chi yn Noson Fawr y Rigarug tuag at Steddfod Caernarfon, yn Ysgol Brynrefail yn ddiweddar, ond

'roeddech chi'n rhy brysur yn siarad hefo Siôn Corn.

DATHLU CANMLWYDDIANT
CAPEL HERMON (EF) LLANRUG
NOS IAU, HYDREF 26, 1978

Ar ben canmlwydd yn Hermon
Yn unfryd unwn ni
I ganu gyda'n gilydd
Am aberth Calfari.
Mae'r Saint agorodd ddrws y Tŷ
Yn moli' 'nghôr y Nefoedd fry.

'Rwy'n cofio llawer oedfa
A llawer gweddi daer.
Yr orig yn y Seiat
Yn sôn am Fab y Saer.
'Rwy'n cofio "Band of Hope" y plant
Er ceisio gwneud pob un yn Sant.
'Rwy'n cofio'r hen flaenoriaid

Fu'n rhodio'r llwybr cul.
'Rwy'n cofio'r merched gwerthfawr.
'Rwy'n cofio'r Ysgol Sul.
Bu'r gwersi am y Groes a'r Graith
Yn ganllaw inni ar y daith.

Pwy all anghofio'r cewri —
Cenhadon mawr eu dawn?
Pwy all anghofio'r porthi
A'r capel bach yn llawn?
Mae eto ffyddlon rai sy'n fyw
A'r fflam yn llosgi ar Allor Duw.

Mae'r sylfaen heno'n ddiogel
A chadarn: Diolch wnawn.
Mae'r drws yn dal ar agor
A'r capel bach yn llawn.
Mae'r Saint sydd yma yn y Tŷ
Yn uno gyda'r Saint sydd fry.

Mary Lloyd Williams,
Llanrug.

CWM-Y-GLO

AWSTRALIA — Ar Dachwedd 15 cychwynnodd Mrs Stewart Jones, Cricieth (Mrs Ifans y Tryc), a'i mab Edward, am dri mis o wyliau at ei mab hynaf Bob a'i briod, Robin i Awstralia Un o'r Cwm yw Jean, yn ferch i'r diweddar Edward ac Elizabeth Roberts, Bod Gwilym. Mae'n edrych ymlaen at gael cyfarfod teulu Robin, ac amryw gyfeillion eraill, ac mae'n benderfynol ei bod am fynd i edrych am William a Theresa Rowlands (4 Dolafon gynt) yn eu cartref yn Adelaide. Ymfudodd Mr a Mrs Rowlands gyda'u dau blentyn, William a Vera, o Fro Rhyddallt yn 1958.

Dymunwn wyliau hapus dros ben i Jean ac Edward.

MR a MRS FLANAGAN — Dychwelyd adref i Awstralia fu hanes Mr a Mrs Tom Flanagan yn ystod y mis. Treuliasant 6 mis o wyliau ym Mhrydain, ac ymunodd Mrs Flanagan gyda ni ym miri'r carnifal. 'Roedd yn chwaer i'r diweddar John Martin Chick, Mairlys.

RHODD O FAB — Ar Dachwedd 13, ganed mab i Linda ac Elfed Parry, Glandŵr. Croeso cynnes i Martin Wyn i'n plith, a llongyfarchiadau i'w rieni, ac i nain a thaid, 12 Dolafon, a nain a thaid Llanberis.

I YSBYTAI — A ninnau yn ein rhifyn diwethaf yn dymuno'n dda i Mr a Mrs J. Phillips, 3 Groeslon, ar ddathlu eu Priodas Euraid, bu'n achos pryder a siomedigaeth pan aed â Mrs Phillips i'r ysbyty ychydig ddiwrnodiau cyn y dathliad. Er mai mewn ysbyty y mae o hyd, da gennym ddeall ei bod llawer yn well erbyn hyn.

Bu Mrs Edith Owen, Talgwynedd hefyd dan driniaeth lawfeddyfol yn ddiweddar. Mae hi gartre'n ôl bellach, a dymunwn lwyr wellhad iddi.

MR TOM OWEN — Wedi cyfnod o rai misoedd mewn ysbytai, hyfryd oedd clywed fod Mr Tom Owen, 3 Dolafon wedi dychwelyd adref. Mae Tom Owen wedi bod yn gweini ar gleifion yn Ysbyty Mon ac Arfon am flynyddoedd bellach ac wedi dringo i safle o gyfrifoldeb yno. Edrydd y cannoedd o lythyrâu a chardiau a dderbyniodd yn ystod ei waeledd, am ei ofal a'i garedigrwydd tuag at gleifion, ynghyd â'i gymwynasgarwch. Pwy fel Tom hefyd am godi ysbyrd isel, gyda'i sirioldeb a'i hiwmor, a hynny er gwaethaf pryderon a phrofedigaethau personol. Carem ddymuno gwell iechyd a phob bendith iddo ef a'i chwaer, Mary Roberts, sydd hefyd wedi gweini yn ddiflino ar gleifion am gyfnod maith.

YN CWYNO — Mae Mr Maldwyn Hughes, Bryn Gro, Mr Elwyn Foulkes, Tan y Bryn a Mr Sam Jones, Glan Don wedi bod yn cwyno'n ddiweddar. Brysiwch wella i gyd.

YN ÔL I'R CWM — Yn ddiweddar symudodd Mr a Mrs Islwyn Roberts a'u plant Leri ac Iolo o Lanrug i fyw i

Dyddyn Alice, Cwm-y-glo. Dymunwn hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd, a phleser yw cael Eryl yn ôl i'r Cwm.

DOLAFON — Mae trigolion Dolafon wedi cael addewid gan y Cynghorydd Francis Jones, y bydd y goleuni llachar newydd yn cael ei roi ar yr ystâd, ac ar y ffordd i Gwm-y-glo. Gobeithir hefyd y bydd palmant yr holl ffordd o'r stad i'r ysgol yn y dyfodol gweddol agos.



PRIODAS — Dydd Sadwrn Hydref 21 yng Nghapel Brynrefail, priodwyd Doris Ann, merch Mr a Mrs Hywel Morris, Tan y Graig a Glyn Roberts mab Mr a Mrs William O. Roberts. Pontllyfni. Gweinyddwyd gan y Parch. G. Angell Jones, Penrhos a'r organyddes oedd Mrs Lowri Prys Williams, Brynrefail. Llongyfarchion cynnes i Doris a'i phriod. Maent yn cartrefu yn 103 Cae Mur, Caernarfon.

Dymuna Doris a Glyn ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion.

Carem hefyd longyfarch Meirion, brawd Doris ar ddathlu ei ben-blwydd yn un ar hugain.

UNDEB Y MAMAU — Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol Cangen Undeb y Mamau yn yr Ysgol Gynradd o dan lywyddiaeth y Rheithor. Ef hefyd oedd yn arwain y gwasanaeth agoriadol. Etholwyd y swyddogion a ganlyn: Arweinydd: Mrs D. Gwynfor Williams, Y Rheithordy; Llywydd: Mrs J.E. Watkins, Dolwen, Cwm-y-glo. Ysgrifenyddion: Mrs D. Pierce, Glanrafon, Pont Rug; Mrs H. Orritt, Morannedd, Cwm-y-glo; Trysoryddion: Mrs T. Owen, Isfryn, Cwm-y-glo a Mrs G. Roberts, Bod Gwynedd, Cwm-y-glo. Y gwesteion oedd Mrs Orritt a Mrs G. Roberts a chyfeiliwyd gan Miss C. Hughes. Diweddwyr drwy weddi.

CWMNI CLWYD

yn cyflwyno

Fantasmagoria
Yn Neuadd Pritchard Jones
BANGOR
Rhagfyr 2 7.30 p.m.

DYMUNA
JERRY & MARGARET
WARDLE

**SWYDDFA'R
POST
a Stordy
Cwm-y-glo**

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

i'w cyfeillion oll

Cyfarchion Nadolig o GWM-Y-GLO a BRYNREFAIL


(Dros y dudalen).



**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda

Cyfarchion y Tymor
oddi wrth
Y BRODYR MORRIS

**BECWS
GORS BACH**

CWM-Y-GLO
Ffôn Llanberis 430

Bara da yw bara Cwm
Triwch rai bach, triwch rai crwn
Beth bynnag fo'r siap, beth bynnag fo'r maint
Dyma'r gorau i blesio bob daint!



Dymuna
Bill ac Eira

**Gwesty'r
Fricsan**

(Snowdon Hotel)
CWM-Y-GLO
Llanberis 289

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'w holl ffrindiau a chwsmeriaid



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

**C & D.WAGER
Llythyrdy
BRYNREFAIL**

Ffôn: LLANBERIS 241

Eich Stor Leol Deuluol ar gyfer
Papurau Newydd Bwydydd Ffrwythau
Dilladau Llysiau Melysion Tybaco

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

**London
Garage**

CWM-Y-GLO

Ffôn Llanberis 234



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Mrs. Fowler

**Siop Chips
Cwm-y-Glo**

Ffôn Llanberis 514

Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda. Diolch am eich cefnogaeth yn 1978, Dymuniadau gorau ar gyfer 1979 oddi wrth

BOB A RUTH PHILLIPS
WELLINGTON INN

Deiniolen

Ffôn : Llanberis 227



Cwrw blasus — chwerw ar ei orau

E. & E.M. GREEN

SIOP GRON

A SWYDDFA'R POST

PENISARWAUN

Ffôn: PADARN 272

NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU
FFRES



Cyfarchion
Nadolig o
Ddeiniolen
a
Phenisarwaun



CYFARCHION
Y TYMOR
A'R
DYMUNIADAU GORAU
AM 1979
oddi wrth

GWYN OLIVER JONES

**Tafarn
Datws
Arfonia**

DEINIOLEN



SGLODION DIGURO!

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth

Y CO-OP
Deiniolen

Ffôn : LLANBERIS 214

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH
TRWY GYDOL 1978



NADOLIG LLAWEN a
BLWYDDYN NEWYDD
DDA i chwi oll
oddi wrth

W.H.Jones

CIGYDD



WAENGOCH
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 638



CYFARCHION Y TYMOR
oddi wrth

E. & A. Hughes

SIOP BAPUR NEWYDD

DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 483



DYMUNA
CLARICE a MERFYN

BULL INN

DEINIOLEN

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD
DDA

i gwsmeriaid a
chyfeillion oll

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
oddi wrth


THOMAS & JONES
Gwydrwyr

GWEITHDY A STORDY, CLWT-Y-BONT
DEINIOLEN

Ffôn: Llanberis 486 neu 680

GWYDR — GWYDRO — GWYDR DWBWL

Amcangyfrifon rhad ac am ddim



NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I BAWB
oddi wrth
CLIFFORD, DIANA A NIA

Swyddfa'r Post
DEINIOLEN

Ffôn : LLANBERIS 283

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

MARGED UCH IFAN

Yn yr *Herald Gymraeg*, yng ngholofnau fy nhad, Glan Rhyddallt, y cefais y manylion arbennig canlynol am hanes Marged Uch Ifan — 12/2/40 a 19/2/40. Bu am fisoedd yn chwilio amdanynt trwy holi a sgwennu etc.

Yn nhafarn Y Telyrni yn agos i Ddrws y Coed y ganed Marged, meddir, a hi oedd yr hynaf o hanner dwsin o blant ei rhieni. Ceir cofnodion am eu bedyddio yng nghofrestr Eglwys Beddgelers: Margaret 1696; Jane 1700; John 1706; Ann 1709; David 1710; Catrin 1712. Buasai Marged yn 282 y flwyddyn hon felly. Enw ei thad oedd Evan Powell. Ceir cofnodiad am ei gladdu yn Eglwys y Plwyf, Bedd Gelert, 5 Mawrth, 1739.

Yr oedd plwyf Bedd Gelert yn ymestyn draw i gyffiniau Drws y Coed gynt meddai Bob Owen Croesor. Dywed Bob Owen hefyd iddo weld enw Evan Powell, tad Marged, yn barti yn prisio eiddo Morgan Hughes o'r Wernlas, Bedd Gelert yn 1698.

Ond y mae'n amlwg oddi wrth y cofnod am fedyddio plentyn i Marged a'i phriod Richard Morris eu bod wedi byw am gyfnod ar ôl priodi ym mhlwyf Llanllyfni, cyn iddynt ddod i fyw i Benllyn ger Brynrefail. Mae'n debyg mai'r gwaith copr a oedd yn Nant Peris a'u tynnodd i Frynrefail.

Efallai mai un o ardal Brynrefail oedd Richard Morris ei phriod ond nid oes sicrwydd am hyn. Tybiai fy nhad mai un o deulu Cae'r Gwyddel ydoedd.

Y mae'r manylion gwerthfawr canlynol yn ddiddorol iawn i ychwanegu at hanes Marged. Cofnodwyd y tri chanlynol gan Bob Owen Croesor allan o gofrestr Eglwys Bedd Gelert ar gais fy nhad.

Mai 1696 (heb ddyddiad) Priodas Richard Maurice a Margaret Evan. 1722 (heb ddyddiad) Bedyddio Maurice mab Richard Morris a Margaret ei wraig.

Derbyniodd fy nhad y wybodaeth ganlynol gan y Parch. D.P. Thomas, Rheithor Llanberis, wedi ei gael yng nghofrestr Eglwys St. Peris, Nant Peris.

"Margaret Maurice was buried February 8th 1786."

Y mae'r cofnod hwn yn berffaith gywir heb amheuaeth. Mae'n debyg fod bedd Marged yn agos i fur yr Eglwys yn yr hen ran o'r fynwent. Gwelir ei bod yn 90 mlwydd oed.

Os edrychwch lyfr y Parch. W. Hobbey 'Methodistiaeth Arfon' a hefyd 'Hen Atgofion' yr Athro W.J. Gruffydd gwelwch nodi blwyddyn marwolaeth Marged Uch Ifan yw 1801 a'i bod yn 105 oed.

Gwnaeth Mr. William Williams, Bob y Gof, Llanberis a hefyd y Parch. G.T. Parry, Llanberis lyfr bob un ar Hynafiaethau Llanberis a'r cylch, gan roddi sylw mawr i Marged Uch Ifan, ond ni wyddai'r un o'r ddau pa bryd nac ymhle y claddwyd hi: ac ni soniodd yr un o'r ddau o ba ardal yr oedd hi.

Y mae Syr John Rhys hefyd wedi gwneud camgymeriad pan oedd yn cyfieithu'r 'Pennant Tours in Wales' trwy roddi'r flwyddyn (1786) rhwng cromfachau i nodi'r amser y buasai Pennant yn nhŷ Marged a hithau wedi mynd oddi cartref y diwrnod hwnnw, meddai ef. O

ddarllen Rhagymadrodd Mr Trevor Parkins i'r 'Tours' gwelir fod Pennant wedi gwneuthur ei dair taith yng Nghymru o'r flwyddyn 1773 i'r flwyddyn 1776, ac wedi cyhoeddi'r holl hanes erbyn 1781. Felly, gwelir fod nodiad Syr John Rhys yn anghywir.

Yr oedd teithiwr arall o'r enw William Hutton yn teithio tua'r Wyddfa yn y flwyddyn 1799. Dywed ef mewn cân fod Marged Uch Ifan wedi ei chladdu ac na wyddai neb ymhle.

Fel hyn y canodd Alafon i Marged yn 1907.

'Roedd Marged Uch Ifan, arwres Pen Llyn,

A'i henw yn arswyd hyd ddyffryn a bryn:

'Doedd neb yn y broydd a safai o'i blaen

Na neb daflai belled y trosol a'r maen.

Helyddes oedd Marged, a chwim oedd ei chŵn:

Llwynogod y llethrau adwaenent eu sŵn;

Hi lamai'r gwyllt fannau cyn hoywed â'r hydd,

A mawr fyddai'r helfa ar derfyn y dydd.

Gwneud cwch fedrai Marged, a'i rwyfo'n ddi-rith;

Hyd Badarn a Pheris heb ofni tro chwith:

Gwneud pedol a'i durio, a'i gosod dan farch

A hawlio gan hwnnw ufudd-dod a pharch.

Gwneud telyn a'i chanu a fedrai'r fwyn wraig:


'Doedd dim yn ei chalon yn debyg i graig;

O, Marged Uch Ifan, hir yma ei thaw — Gobeithio fod telyn o hyd yn ei llaw.

Alafon.

(Ychwaneg am Marged Uch Ifan y mis nesaf.)

LLYN PERIS, 25ain TACHWEDD, 1978



24 Glanffynnon, Llanrug.

Annwyl Syr,

Carwn gefnogi llythyr agored Dafydd Wh. Thomas a ymddangosodd yn rhifyn Tachwedd o'r Eco ynglŷn â'r angen am ganolfan ym mhentref Llanrug.

Wn i ddim am bentref gyda phoblogaeth yn tynnu am dair mil a chyn lleied o gyfleusterau cymdeithasol na Llanrug! Mae'r peth yn warthus ac mae'n hen bryd gwneud rhywbeth ynglŷn â'r sefyllfa er lles y pentref a'r trigolion sy'n byw yma.

Fel y crybwyllodd Dafydd, mae'r syniad o gael canolfan yma yn un uchelgeisiol, ond gan fod Llanrug yn un o'r ddau bentref yn Arfon (dau yn unig cofiwch) a glustnodwyd fel man twf bydd anghenion y pentref yn cynyddu'n fwy fwy fel yr adeiladir mwy o dai yma.

Gellir dadlau fod gan Gyngor Sir Gwynedd a Chyngor Arfon gyfrifoldeb i ddarparu cyfleusterau ar ein cyfer, ac wrth gwrs, mae gwirionedd yn hyn. Ond gan fod y Cyngor Sir yn rhy brysur yn sôn am adeiladu 'castell' o bencadlys yng Nghaernarfon, tra bod Arfon yn methu â chael digon o arian i atgyweirio ei stoc o dai, go brin y daw fawr o gefnogaeth ariannol oddi wrthynt ar hyn o bryd.

Yn fy nhyb i, 'roedd y syniad a oedd gan nifer o gynghorwyr Arfon rhyw flwyddyn yn ôl (Mrs. Pat Larsen a Mr. Gwyndaf Jones yn eu plith) y dylid rhannu'r

arian yr honnwyd fod y Bwrdd Cynhyrchu Trydan am ei wario ar ganolfan hysbysrwydd yn Llanberis rhwng pentrefi megis Llanrug, Deiniolen, Dinorwig, Llanberis, Cwm-y-glo, Brynrefail etc. fel rhyw fath o iawndal am yr anhwylostod sydd wedi ei greu yn sgîl Cynllun Dinorwig, yn un penigamp.

Byddai hawl wedyn, yn ôl yr hyn a ddeallais i o gynllun y cynghorwyr, i bob pentref ddefnyddio'r arian ar gyfer rhywbeth lleol er budd y trigolion. Ond yn anffodus ni chafodd y syniad hwn fawr o wrandawriad gan y Bwrdd Trydan, ac yn fy nhyb i, collwyd cyfle gwyh i'r Bwrdd ddangos gwerthfawrogiad o barodrwydd trigolion Dyffryn Peris i ddioddef yr hyn a ddaeth yn sgîl y cynllun.


Beth bynnag, i ddod yn ôl at lythyr Dafydd, cytunaf y dylen ni drigolion Llanrug, roi dechrau ar y gwaith o gael canolfan addas i'r pentref. Fel y dywedodd mae grantiau helaeth ar gael, ac os bloeddiwn yn ddigon uchel a dangos parodrwydd i gario peth o'r baich, yna mae posibilrwydd y llwyddwn.

Beth am ddechrau trwy i'r Cyngor Cymuned alw cyfarfod cyhoeddus yn y pentref i drafod y mater ac i ninnau dyrru yno yn ein cannoedd (neu well fyth yn ein miloedd) i ddangos yn eglur ein bod angen canolfan gymdeithasol addas o ddifrif yn Llanrug.

Yn gywir, E. Roberts.

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



Bwsiau Arfon
LLANRUG

FFÔN
WAUNFAWR 254

SIALENS

Cyflwyno, trwy gymorth sleidiau
tapiau neu gyfrwng arall, hiwmor
unrhyw lenor o'ch sir.

** Ydych chi'n aelodau o Glwb
Ieuencid, o Aelwyd, o Glwb
Ffermwyr Ieuainc?

** Oes 'na 3-6 ohonoch chi?

** Wyddoch chi rywbeth am
unrhyw lenor o'ch sir?

Os felly, dylech ymateb i her tîm
Aelwyd y Gorlan, y Bala!

Nhw enillodd y Tlysau y llynedd

Pwy sy'n mynd i'w hennill eleni?

Trefnir y gystadleuaeth gan
y Cyngor Llyfrau Cymraeg
Sgwar y Frenhines, Aberystwyth
(4151)



YMUNWCH Â'R MILOEDD
MEWN PARTI DOLIG MAWR
YN

THEATR GWYNEDD BANGOR

Nid parti o de a jeli coch a blwmonj a byns
ond parti o hwyl a hwrê
a hwnnw'n para am FIS!

Beth am hel criw o'r pentre (plant a phlant-mewn-oed),
beth am drefnu parti i'r ysgol, y gymdeithas neu'r
Ysgol Sul i weld a mwynhau digwyddiad y flwyddyn

PANTOMEIM THEATR CYMRU

ELIBABI

RHAGFYR 19—IONAWR 13 Pris Tocynnau: £1.20 i oedolion 60c yn unig i bartion o blant

*Gan fod dros 2000 o docynnau wedi'u gwerthu'n
barod, fe'ch cynghorwn i gasglu enwau a llogi bws.*

YN AWR

*Am fanylion llawn am amserau'r perfformiadau etc.
galwch yn ein swyddfa docynnau neu ffonio
BANGOR 51708*

Dyddiadur y Mis

Rhagfyr 1, Gwener:

YR ARDAL: Clwb Eryri; WAUNFAWR—Dosbarth WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd', yn yr ysgol am 7.

LLANBERIS (1) Clwb yr Henoed; (2) Eisteddfod Eglwys St. Padarn yn Neuadd yr Eglwys, Llanberis.

PENISARWAUN — Gyrfa Chwist y Nadolig yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
DEINIOLLEN — Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yng Nghlynnog.

Rhagfyr 2, Sadwrn:

DEINIOLLEN — Cinio Nadolig Cangen Plaid Cymru yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis. YR ARDAL — Ffair Nadolig Merched y Wawr Arfon yn Neuadd y Fyddin, Caernarfon am 2.

BETHEL — Gwibdaith Clwb y Mamau i Gaer. PENISARWAUN — Gwibdaith i Gaer.

Rhagfyr 4, Llun:

LLANBERIS (1) Clwb Methodig Eryri (2) Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

(3) Dosbarth WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr ysgol am 7.00
(4) Y Gymdeithas Lenyddol.

LLANRUG — (1) Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. (2) Y Gymdeithas Undebol — sgwrs gyda darluniau ar daith i China gan Mr R. Gordon Williams, Penygroes.

(3) Clwb Blodau'r Grug yn canu carolau yng Nghapel Hermon.

WAUNFAWR—(1) Cangen Merched y Wawr yn ymweld â changen Nant Gwynant. (2) y Gymdeithas Lenyddol — sgwrs gan Mrs Gweneirys Jones.

Rhagfyr 5, Mawrth:

CWM-Y-GLO — Cangen Plaid Lafur — noson o ffilmiau. DINORWIG — Noson Goffi dan nawdd y Clwb Ieuenctid i godi arian gogyfer â chael anrhegion i'r henoed. DEINIOLLEN (1) Clwb Elidir. (2) Dosbarth WEA 'Hanes Lleol' yn yr ysgol am 7.00. LLANBERIS — Pwyllgor Lleol 'Steddfod '79 yn Festri Gorffwysfa am 8.00

Rhagfyr 6, Mercher:

LLANRUG — Y Cyngor Eglwys — Seiat yng Nghapel Bryngwyn 'Wythnos Un Byd'. BRYNREFAIL — Dosbarth WEA 'Beirdd ein Canrif' yn y Festri am 7.30. LLANBERIS (1) Y Gymdeithas Ddrama. (2) Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.

(3) Seiat Efengylaidd yn Festri Nant Padarn am 7.00. CWM-Y-GLO — Swper Nadolig Merched y Wawr.

Ragfyr 7, Iau:

WAUNFAWR — Sefydliad y Merched — Noson gan yr aelodau. LLANBERIS — (1) Dosbarth WEA Y Dyddiau a Fu yn yr ysgol am 7.00. (2) Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yng Ngwesty Victoria. LLANRUG — Ffair Nadolig Cymdeithas y Chwiorydd Capel Mawr.

Rhagfyr 8, Gwener:

LLANBERIS — (1) Noson o Hwyl a Disco yng Ngwesty Victoria am 8.30. — yr elw er budd Apêl Angorfa. (2) Parti Nadolig Clwb y Mamau.

WAUNFAWR — (1) Dosbarth WEA yn yr ysgol am 7.00. (2) Ffair Nadolig dan nawdd Cangen Plaid Cymru yn Neuadd yr Eglwys am 6.30.

Rhagfyr 9, Sadwrn:

LLANRUG — Swper Nadolig y Seindorf yng Ngwesty'r British, Bangor
BRYNREFAIL — Cinio Nadolig Clwb Pedwar Ugain yng Ngwesty'r Marine, Caernarfon.

Rhagfyr 11, Llun:

WAUNFAWR — Dosbarth WEA 'Llên Llyfr a Llafar' yn yr ysgol am 7.15.
LLANRUG — (1) Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. (2) Cinio Nadolig Merched y Wawr yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis. LLANBERIS — (1) Disco Nadolig y Clwb

Ieuenctid yng Ngwesty'r Victoria. (2) Clwb Methodig Eryri. (3) Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30. (4) Dosbarth WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr ysgol am 7.

Rhagfyr 12, Mawrth:

WAUNFAWR — Cinio Nadolig Sefydliad y Merched yng Nghastell Cidwm. LLANBERIS — Disco Nadolig Adran Urdd Dolbadarn yn neuadd yr ysgol o 6—8.00 o'r gloch.

Rhagfyr 13, Mercher:

CWM-Y-GLO — Gyrfa Chwist y Nadolig. BETHEL — Merched y Wawr yn dathlu'r Nadolig yng nghwmni aelodau o Cangen Penrhosgarnedd.

LLANRUG — Cinio Nadolig Clwb yr Henoed yn yr Ysgol Gynradd.

LLANBERIS — (1) Y Gymdeithas Drama. (2) Clwb y Mamau — Noson o Bingo. (3) Seiat Efengylaidd yn Festri Nant Padarn am 7.00

Rhagfyr 14, Iau:

PENISARWAUN — Swper Nadolig Clwb yr Henoed yn yr Erw Fair, Llanberis. LLANBERIS — Sefydliad y Merched — sgwrs gan Mrs Non Evans.

LLANRUG — Cinio Nadolig Clwb y Mamau yn y 'Nanharon Arms', Nefyn

WAUNFAWR — Clwb y Mamau yn dathlu'r Nadolig yn y 'Snowdonia Park'. TAN-Y-COED — Ffair Nadolig yn y Festri am 7.00. Yr elw at Gronfa Adeiladau Capel Tan-y-coed.

Rhagfyr 15, Gwener:

LLANBERIS — (1) Clwb yr Henoed. (2) Ffair Gaeaf Cangen Plaid Cymru yn Festri Gorffwysfa. WAUNFAWR — Dosbarth WEA 'Gwerthfawrogi Celfyddyd' yn yr ysgol am 7.00. CWM-Y-GLO — Noson Lawen dan nawdd Cangen Plaid Lafur. DEINIOLLEN — Gyrfa Chwist dan nawdd Pwyllgor Apêl Gwaun Gynfi yn yr ysgol am 7.

Rhagfyr 16, Sadwrn:

LLANRUG — Te Parti Nadolig Plant y Seindorf.

Rhagfyr 17, Sul:

LLANBERIS — 'Cymanfa Garolau' yng Nghapel Coch am 8.00 y nos. Yr elw er budd Cronfa'r Eisteddfod.

Rhagfyr 18, Llun:

LLANRUG — Dosbarth WEA yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. DEINIOLLEN — Merched y Wawr — noson o garolau ac eitemau eraill. LLANBERIS — (1) Te Parti Nadolig Plant y Gobeithlu yn Festri Capel Coch. (2) Y Gymdeithas Lenyddol. (3) Dosbarth WEA Arlunio yn yr ysgol am 7. (4) Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.

Rhagfyr 19, Mawrth:

DEINIOLLEN — Clwb Elidir.

Rhagfyr 20, Mercher:

LLANBERIS — (1) Seiat Efengylaidd yn Festri Nant Padarn am 7. (2) Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30. LLANRUG — Y Seindorf a Chantorian Carolau yn mynd o amgylch y pentref. Yr elw er budd Cronfa Rigarug.

Rhagfyr 21, Iau:

LLANBERIS — Disco dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan.

Rhagfyr 22, Gwener:

BETHEL — Cinio Nadolig y Mamau yng Nghestry'r Royal, Caernarfon.

Rhagfyr 24, Sul:

LLANBERIS — Gwasanaeth Nadolig Plant Capeli Llanberis a Nant Peris yng Nghapel Coch am 6.00.

Rhagfyr 25, DYDD NADOLIG —

LLANRUG — Y Cyngor Eglwys — Gwasanaeth y Plygain am 7 o'r gloch y bore yng Nghapel Ponrhythallt.

Rhagfyr 27, Mercher:

LLANBERIS — Seiat Efengylaidd yn Festri Capel Nant Padarn am 7.

Rhagfyr 28, Iau:

LLANRUG — Taith i weld pantomeim 'Eli Babi' yn Theatr Gwynedd, Bangor.

Rhagfyr 31, Sul:

LLANRUG — Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn Eglwys Sant Mihangel.

DYDDIADAU I'W COFIO

Ionawr 1 — Taith plant Ysgol Sul Eglwys Sant Mihangel i Fangor i weld 'Eli Babi'.

Ionawr 8 — Yr Ysgolion yn ailddechrau

Ionawr 11 — A.G.M. y Carnifal

Llanberis yn y Ganolfan.

Hwn Oedd Y Gora

PARHAU mae'r ddadl am dîm pêl-droed gorau'r ardal, a daeth nifer o lythyrau i law yn dilyn yr honiad yn *Eco* r mis diwethaf fod tîm Llanberis y flwyddyn 1934-35, tîm Wil Penny, yn ddiguro. Cytuno â'r gosodiad wna'r mwyafrif o'r llythyrau, ac un yn wir yn honni nad yw tîm presennol Llanrug yn deilwng o'u cymharu â hwy o gwbl — os felly, mae'r golled i'r rhai ohonom na chawsom y cyfle i'w gwyllo yn enfawr, oherwydd ar eu dydd, mae safon chwarae tîm Llanrug o radd uchel iawn.

Nid gennyh chwi'r dynion y daeth yr holl ymateb 'chwaith, mae Mrs Doris Griffiths, Dôl Elidir, Llanberis yn bendant mai tîm '34 oedd y gorau erioed, ac ar destun ychydig yn wahanol, ysgrifennodd Mrs Mai Parry, Bryn Heli Llanrug, gan gyfeirio at lun tîm 1949-50 *Eco* r mis diwethaf ac egluro mai ei thad, y diweddar David Morris Jones (D.M.), brodor o'r Groeslon oedd y dyfarnwr sy'n sefyll ar y chwith i'r chwaraewyr.

Llythyr Mr Frank Rhys Jones, gynt o Fethel a phrifathro Ysgol Dyffryn Ogwen heddiw, yw'r mwyafrif diddorol, gan fod iddo brofiad personol, a chysylltiadau agos â'r tîm. Yn fachgen un-ar-bymtheg mlwydd oed, chwaraeodd ei gêm gyntaf i'r Felinheli, neu Port Dinorwig YMCA fel y'u gelwid, yn erbyn tîm Wil Penny ar gae dinas Bangor yn rownd gyn-

derfynol Cwpan Iau Gogledd Cymru. Buddugoliaeth o dair gôl i un i Lanberis oedd canlyniad y gêm, a gwyddom iddynt ennill y cwpan y flwyddyn honno. Ni ddangoswyd trugaredd o gwbl iddo oherwydd ei oed, a chafodd b'nawn prysur dros ben yn ceisio atal Rol Bach, Dafydd Jane Ann, Dafydd Annie Dora a lanto rhag sgorio.



Tîm Llanberis 1934-35 ac aelodau'r pwyllgor. Dyma'r chwaraewyr, yn sefyll o'r chwith i'r dde:

Wil Griffiths (Padarn Road); Gwilym Jones (y golgeidwad); Wili Wyn Davies (y capten); William Williams (Wil Penny); John Glyn Jones. Yn eistedd: Dafydd (Jane Ann); D.J. Roberts (Dafydd Taff); Dafydd (Annie Dora); Arthur Roberts (Bangor).

Ar y llawr: E.H. Williams (lanto) a Rol Bach. Enillwyr cwpan Penrhyn, Alves a chwpan Iau Gogledd Cymru a phencampwyr y Gynghair.

Mae'r gosodiad yn ei lythyr mai'r cefnwr canolog, Wil Wyn Davies, oedd capten y tîm yn ddipyn o syndod i mi, pam felly'r holl gyfeirio at hwn fel tîm Wil Penny?

Mae profiadau personol gan Mr Jones ynglŷn â chwaraewr gorau'r ardal hefyd; yn rhyfedd ni chyfeiriwyd at hyn gan neb arall. Mae'n enwi nifer o bêl-droedwyr amlyca'r cyfnod, Guto Crawia, Huw Wern, Twm John Bach, Owen Jones, Deiniolen, Harri a Rheinallt Capel Nazareth, ac yn cytuno fod siawns da y byddai Emlyn Davies wedi datblygu'n un o sêr y gêm petai wedi cael y cyfle a theimla i ryw raddau mai "arna i ma'r bai na ddigwyddodd hynny." Ym mis Tachwedd, 1935 dewiswyd y ddau ohonynt i dîm Cenedlaethol yr Urdd i chwarae nifer o gemau yn Ffrainc yn Ionawr, 1936. Yn Rhagfyr '35,

mewn gêm Gwpan yr Urdd, a'r ddau yn gwrthwynebu ei gilydd, o ganlyniad gwrthdrawiad rhyngddynt torrodd Emlyn ei goes a cholodd y trip i Ffrainc. Ar ôl dychwelyd, gwahoddwyd nifer o'r hogia am fis o brawf gyda rhai o dimau Lloegr, a theimla Mr Jones yn sicr y byddai Emlyn wedi derbyn y gwahoddiad hefyd.

Er hynny, ac er ei fawr edmygedd o Emlyn, a'r cyfeillgarwch sydd rhyngddynt o hyd, mae'n teimlo fod yn rhaid ei roi'n ail fel pêl-droediwr i'r diweddar John Glyn Jones, aelod o'r tîm 1934-35, y chwaraewr mwyafrif cyflawn a welodd yr ardal erioed ac a gollodd ei fywyd yn y rhyfel.

Dyna ni felly, tîm 1934-35 Llanberis ac aelod o'r tîm, John Glyn, dyna'r goreuon, OS NAD OES RHYWUN Â BARN WAHANOL!

CYNRYCHIOLI ARFON

Mae nifer o ddisgyblion Ysgol Brynrefail wedi eu dewis i chwarae yn nhimau pêl-droed Arfon.

I'r tîm hyn y mae Richard Ll. Williams o Lanrug ac Eifion Jones o Ddeiniolen yn chwarae. Dewiswyd Eifion hefyd i chwarae dros ysgolion Gogledd Cymru ac mae eisoes wedi cael un gêm.

Mae pedwar o'r ysgol yn y tîm dan 15 oed, David J. Brailsford, Carl Williams a Kevin Jones, y tri o Ddeiniolen, ac Adrian Wakeham o Lanberis. Bydd Adrian, sydd â'i lun isod, yn treulio pump neu chwe diwrnod o'i wyliau Nadolig yn ymarfer â thîm Manchester United. Fe'i gwahoddwyd yno am brawf. Pob lwc iddo.



Nid yw tîm dan 13 oed Arfon wedi chwarae eto, ond y mae dau o'r ysgol yn y garfan, sef Neal Rowlands o Gwm-y-glo a Dilwyn John Williams o Benisarwaun.

YMWELD Â LEEDS UTD.

Be'n well, am ennill Cwpan Bernard Wardle y tymor diwethaf, na thrip i weld Leeds yn chwarae gartre yn erbyn y Spurs. Dyna oedd gwobr tîm dan 15 oed Deiniolen, ac am wyth o'r gloch y bore, ar Fedi 16 wele lond bws ohonyn nhw'n cychwyn ar y daith.

Ar ôl mwynhau'r gêm fe'u gwahoddwyd i gyfarfod ac i sgwrsio â chwaraewyr Leeds a'r Spurs, a chyflwynwyd telyn, wedi ei llunio o lechen ar ran yr hogia i Ken Archer, ysgrifennydd cyffredinol Leeds United gan eu capten Eyrn Owen — derbyniodd yntau faner Leeds United.



Eyrn yn cyflwyno'r delyn i Mr. Archer.

CYNGHRAIR CAERNARFON

	Ch.	E.	Cyf.	Colli	O. Bl.	Yn Erb.	Pwyntiau
Llanrug	15	.3	1	1	63	18	27
Llanberis	15	12	1	2	52	15	25

LLANBERIS

4.11.78

CWPAN GANOLRADD CYMRU Caernarfon Utd. 1 Llanberis 3

Gêm orau'r tymor i Lanberis. Einion Holland a Sel Allsup yn eu rhoi ar y blaen yn yr hanner cyntaf a Ray Harding yn ei gwneud yn saff yn yr ail.

11.11.78

CWPAN IAU GOGLEDD CYMRU Llanberis 0 Rhuthun 1

Allan o'r Cwpan yn yr ail rownd i gic cosb. Yn yr ail hanner enillwyd 20 cic gornel gan Lanberis ond heb lwyddo i sgorio o'r un ohonynt.

18.11.78

Llanberis 5 Mountain Rangers 2

Afon Goch yn gorlifo dros y cae a Llanberis yn gwneud rhywbeth tebyg i'r Rangers efo goliau gan Iwan Evans, Ray Harding (2), Gwilym Williams a Kelvin Jones.

25.11.78

C.P.G.E. 0 Llanberis 1

Gêm anodd iawn ar fwrdd cae'r myfyrwyr ym Mangor. Einion Holland oedd unig sgoriwr y gêm.

LLANRUG

4.11.78

Llanrug 4 Mt. Rangers 1

Golgeidwad y Rangers yn sgorio gyda chic anferth dros ben golgeidwad Llanrug, ond 'doedd neb arall o dîm Rangers yn edrych yn debyg o'i efelychu, a 2 gôl yr un gan Dic Owen a Vernon Lloyd yn selio'r gêm i Lanrug.

11.11.78

Nefyn 2 Llanrug 3

Nefyn yn sgorio 2 waith o fewn munud yn yr ail hanner, ond gôl gan Len Padmore a dwy gan Dic Owen yn ennill y pwyntiau.

18.11.78

Caernarfon 0 Llanrug 3

Gêm galed mewn glaw trwm, ond pêl-droed ardderchog gan y ddwy ochr. Hefin Jones yn rhoi Llanrug ar y blaen, a Peter Roberts yn sgorio 2 yn niwedd yr ail hanner.

25.11.78

CWPAN IAU GOGLEDD CYMRU ROWND 3

Hotpoint 1 Llanrug 3

Golgeidwad Hotpoint yn ardderchog yn yr hanner cyntaf, a Llanrug yn methu'n lân â sgorio. Ugain munud cyn diwedd y gêm mentrodd Hotpoint i hanner Llanrug — a sgorio. Yn chwarter awr olaf y gêm y dechreuodd Llanrug ddarganfod cefn y rhwyd. Y gôl gyntaf yn anrheg gan gefnwr Hotpoint, ac yna Len Padmore yn eu rhoi ar y blaen o gic gornel gan Hefin Jones. Ychydig funudau wedyn, Hefin yn methu penalti, ond V. Lloyd yn sgorio'r drydedd i wneud y gêm yn ddiogel.